

Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/2026

& Blaenoriaethau 2026/27





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.
Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.

This document is also available in English.
See English page on our website.

Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â / If you would like this document in another format contact:

Jeśli chciał(a)by Pan(i) otrzymać ten dokument w języku polskim,
prosimy o kontakt poprzez:

Jeigu jūs pageidaujate šį dokumentą gauti lietuvių kalba, prašome
kreiptis:

Dacă doriți acest document în limba română, vă rugăm să contactați:

Ha magyarul szeretné megkapni ezt a dokumentumot, kérjük, vegye
fel a kapcsolatot:

您如果想得到這份文件的粵語版本請聯絡



01352 703020



Gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk
customerservices@flintshire.gov.uk



Cynnwys

Adran 1 Cyflwyniad

Adran 2 Crynodeb y Cyfarwyddwr

Adran 3 Cyd-destun

- Data cyd-destunol a mesuryddion perfformiad cenedlaethol
- Arweinyddiaeth
- Gweithlu
- Adnoddau ariannol

Adran 4 Asesu perfformiad

- Pobl
- Atal
- Partneriaeth ac integreiddio
- Lles

Adran 5 Gwybodaeth arall

- Arolygiadau ac adolygiadau
- Cwynion a sylwadau
- Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth

Adran 6 Atodiadau

- Cynllunio at y dyfodol a chynaliadwyedd
- Crynodeb o flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2026/27
- Rhestr termau

Cyflwyniad

Adran 1

Caiff Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei baratoi yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd eu dwy yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i adrodd ar ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae'r adroddiad yn crynhoi'r prif gamau sy'n cael eu cymryd yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi trosolwg i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein gweithlu, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn asesu ein perfformiad yn erbyn pob un o'r pedwar maes o fewn y Fframwaith Gwella Perfformiad – Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Lles, a'r wyth safon ansawdd o dan y pedwar maes hynny. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac mae'n disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi ceisio cyflawni'r safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Ceir achosion lle mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad yn ymwneud â mwy nag un safon ansawdd, ond manylir arno yn y maes mwyaf priodol.



Crynodeb y Cyfarwyddwr

Adran 2

Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/26.

Mae gofal cymdeithasol yn chwarae rhan hollbwysig i gefnogi pobl i fyw bywydau diogel, cyflawn ac annibynnol. Wrth ei wraidd mae pobl, perthnasoedd a charedigrwydd, yn plethu ynghyd i wneud gwahaniaeth go iawn bob dydd. Drwy gydol 2025/26, mae ein gwasanaethau wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi preswylwyr a'u gofalwyr i fyw'n dda, gydag urddas, annibyniaeth a dewis.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddarparu cefnogaeth hollbwysig, gan alluogi pobl i reoli eu bywydau eu hunain, cryfhau gwytnwch a galluogi unigolion i gadw cysylltiad â'u cymunedau lle bo modd. Ynghyd â hyn, rydym wedi cyflwyno ystod o fodelau ac arferion arloesol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant i geisio gwella canlyniadau ac effeithlonrwydd, ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion ein poblogaeth, sy'n newid o hyd.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol. Rydym yn parhau i weithredu yng nghydestun pwysau cynyddol yn ariannol ac o ran y gweithlu, wedi'u cymell gan fwy o alw, anghenion mwy cymhleth, a chostau cynyddol o fewn gwasanaethau rydym yn eu comisiynu. Mae recriwtio a dal gafael ar staff mewn rhannau allweddol o'r gweithlu – gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, staff gofal cartref a gweithwyr ailalluogi – yn parhau i fod yn anodd, gan adlewyrchu heriau cenedlaethol a ledled y sector.

Er y pwysau hyn, mae ein gwaith gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn parhau i fod yn ganolog i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy. Mae teuluoedd wedi chwarae rhan fwyfwy pwysig wrth asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau, gan



Craig Macleod

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol

roi golwg werthfawr iawn ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt. Gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cymunedol, maen nhw wedi helpu i sicrhau diogelwch, lles a sefydlogrwydd gartref. Mae cydweithio fel hyn wedi cyfrannu at allu dal i ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar ac annibyniaeth, hyd yn oed wrth i alw gynyddu.

“Roedd ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 yn canolbwyntio ar ddatblygu model gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy sy'n cefnogi sefydlogrwydd hirdymor wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o safon. Mae hyn yn galluogi mynediad at gefnogaeth anffurfiol, gyffredinol a chymunedol; cryfhau gwytnwch personol a chymunedol; a hyrwyddo hunangymorth trwy lwybrau ailalluogi, adfer a datblygu. O fewn gwasanaethau plant, mae hyn wedi cynnwys cryfhau gallu rheini i fagu a chefnogi teuluoedd i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain trwy ddulliau fel cynadledda grwpiau teuluol a gwaith adfer.”

Yn sail i'n model, mae:

Angerdd dros ymarfer

Trwy 'sgyrsiau beth sy'n bwysig', byddwn yn cadw at egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi'i lywio gan y dyhead cyffredin i gael effaith gadarnhaol ar fywydau unigolion.

Cefnogi annibyniaeth

Byddwn yn mabwysiadu dulliau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i alluogi unigolion a lleihau'r angen am gymorth statudol lle mae'n ddiogel ac yn briodol.

Gofal yn nes at y cartref

Byddwn yn cefnogi pobl o fewn eu cymuned, gan leihau'r angen am dderbyn pobl i'r ysbyty a gwella ansawdd bywyd trwy ddarpariaeth leol.

Cymorth digidol

Byddwn yn defnyddio technoleg i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gofal a'i bersonoli'n fwy.

Marchnad gynaliadwy

Byddwn yn talu pris teg am wasanaethau gofal sy'n amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol gyfrifol, gan ddarparu canlyniadau sydd o ansawdd ac wedi'u personoli i fodloni anghenion a aseswyd.



Mae ein model yn cael ei ddarparu gan weithlu angerddol, ymroddgar a phroffesiynol sy'n parhau i arloesi ac ymrwymo i gefnogi lles ac annibyniaeth ein preswylwyr. Mae partneriaethau cryf gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau a darparwyr yn galluogi i ofal cymdeithasol ganolbwyntio ar ymyrraeth wedi'i thargedu gyda'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae gwaith sylweddol a chadarnhaol wedi'i wneud ar draws gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i gyflawni ein blaenoriaethau, a sawl canlyniad cryf wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn. Er hynny, mae hefyd wedi bod yn gyfnod trwm lle bu angen myfyrio, dysgu a datblygu rhagor ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Rydym ni'n cydnabod ein bod ar siwrnai i wella a bod angen rhagor o waith gwella er mwyn sicrhau bod ymarfer o ansawdd uchel a sicrwydd cyson. Mae'r angen am sicrhau cydymffurfiaeth systemau a gwasanaethau o safon wedi'i ategu drwy adborth gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn dilyn dau arolygiad adolygu yn ystod 2025/26.

Mae ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2026/27 wedi'u llywio gan ganfyddiadau AGC, yr hyn a ddysgwyd mewn adolygiadau ymarfer plant, a myfyrio'n ehangach ar waith amlasiantaeth. Rydym yn parhau â'r gwaith o gryfhau ein systemau, cefnogi ein gweithlu i ddatblygu ymarfer hyderus a chyson, a sicrhau bod arferion diogelu cadarn yn ganolog i bopeth a wnawn. Parhau hefyd mae ein hymrwymiad i feithrin sefydliad gwydn sy'n gallu dysgu ac sy'n parhau i wella canlyniadau i'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

I gyfrannu at gyflawni'r uchelgais hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi mwy o arian i'r maes gofal cymdeithasol i ymdopi â chostau a galw cynyddol. Mae £7 miliwn yn ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer 2026/27. Bydd £6 miliwn yn mynd tuag at dalu am wasanaethau gofal, gan gynnwys gofal preswyl i oedolion a phlant, cefnogaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain, a chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Caiff £1 miliwn arall ei ddefnyddio er mwyn cefnogi gwasanaethau plant i ymateb i'r galw cynyddol a pharhau ar ein siwrnai i gryfhau ein hymatebion. Mae angen y cyllid hwn i gynnal ein gwasanaethau presennol yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi pobl ddiamddiffyn sydd angen cymorth gofal cymdeithasol.

Data cyd-destunol a mesuryddion perfformiad cenedlaethol 01 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

10,303 Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn.

7,449 Nifer y cysylltiadau newydd hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt. (Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 1,140 o gysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol a arweiniodd at gyngor a chymorth gan ein gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol).

7,540 Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

17% Canran yr asesiadau lle'r aethpwyd ymlaen i lunio cynllun gofal a chymorth er mwyn cyflawni eu canlyniadau.

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn, roeddem yn helpu **1,167** o bobl dros 65 oed i fyw yn eu cartrefi a **696** o bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

73% Canran y bobl â phecyn cymorth yr adolygwyd eu cynllun gofal o fewn y terfynau amser.

441 Nifer y bobl a gwblhaodd becyn ailalluogi yn ystod y flwyddyn.

1,711 Nifer yr oedolion sy'n ofalwyr a gafodd eu hadnabod a'u hatgyfeirio at ein gwasanaeth gofalwyr.

510 Nifer y bobl a gomisiynodd eu gwasanaethau eu hunain drwy daliadau uniongyrchol.

1,347 Nifer yr adroddiadau diogelu oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

98% Y ganran o'r rhain a ddatblygodd yn ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod.

333 Nifer yr achosion sy'n aros am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd gofal a chymorth i **741** o bobl dan gategori Anableddau Dysgu a **695** dan gategori Anableddau Corfforol (mae hyn yn cynnwys amhariadau synhwyraidd).

923 Nifer yr achosion o ryddhau claf o'r ysbyty a oruchwyliwyd yn uniongyrchol gan weithiwr cymdeithasol neu swyddog asesu cymunedol.

Gwasanaethau Plant

15,658 Nifer y cysylltiadau â gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn.

11,584 Nifer y cysylltiadau hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt.

1,217 Nifer y teuluoedd a gafodd wybodaeth a chymorth drwy'r Ganolfan Cymorth Cynnar.

2,589 Nifer y teuluoedd a drosglwyddwyd i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor.

109 Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2026.

95% & 100% Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau adolygu a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.

6% Canran y plant a ychwanegwyd at y gofrestr a gafodd eu hailgofrestru o fewn 12 mis o'u dadgofrestru.

10.4 mis Cyfartaledd y cyfnod y bu plant ar y gofrestr.

102 Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle'r oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy daliad uniongyrchol ar 31 Mawrth 2026.

91 Nifer y plant / pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn.

2,318 Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

22.2% Canran y rhai a aeth ymlaen i gael cynllun gofal a chymorth.

51.9% Canran y rhai oedd ag anghenion y gellid eu diwallu drwy unrhyw fodd arall.

25.8% Canran y rhai oedd heb unrhyw anghenion cymwys.

260 Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2026.

Arweinyddiaeth



**Cynghorydd
Christine Jones**
Aelod Cabinet
Gwasanaethau
Cymdeithasol a Lles

Arweinyddiaeth Wleidyddol

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac mae ganddynt ran allweddol yn y gwaith o lywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor a chymeradwyo polisïau i allu gwella o hyd. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 67 o Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac sy'n rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio ei berfformiad. Mae'r Arweinydd, y Cynghorydd Dave Hughes, yn

penodi un Aelod i gynrychioli pob maes portffolio fel Aelod Cabinet. Ar y cyd â'r Arweinydd, Dirprwy Arweinwyr, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor. Y Cynghorydd Christine Jones yw Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Sut rydym ni'n Gwneud Penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yw un y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhelir cyfarfodydd ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Ieuenctid i drafod gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n trawstorri Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinwyr y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd y Tîm Rheoli.

Mae'r Prif Weithredwr yn arwain swyddogion y Cyngor, wedi'i gefnogi gan y Prif Swyddogion ar gyfer pob portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd rôl statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu ei strwythur gweithredol, prosesau gwneud penderfyniadau a gweithdrefnau i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

Mae llywodraethu mewnol yn digwydd ar ffurf gwaith archwilio sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n gallu galw ar swyddogion i roi tystiolaeth os bydd pryderon yn codi.

Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad a throsolwg cenedlaethol ar ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ei rôl yn cynnwys cefnogi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, datblygu a darparu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a gweithredu'r fframwaith comisiynu cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth. Mae Sir y Fflint wedi parhau i gryfhau ein trefniadau llywodraethu trwy ymgysylltu â'r Swyddfa Genedlaethol a phartneriaid eraill, gan gefnogi ymdriniaeth gyson ar gyfer atebolrwydd a sicrwydd. Mae hyn yn ein helpu i alinio ein gwasanaethau â blaenoriaethau a fframweithiau cenedlaethol, wrth gyfrannu at weithgarwch ar berfformiad, y gweithlu a gwella ar y cyd.

Mae gweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol hefyd yn cefnogi ein ffocws ni ar welliant parhaus. Mae cael gwybod am wybodaeth, meincnodau a gwersi yn genedlaethol yn ein helpu ni i ddeall ein perfformiad, gweld ble mae angen i ni wella, ac ymateb i heriau ehangach. Mae hyn yn ategu ein partneriaethau lleol a rhanbarthol ac yn cefnogi ein nod i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy o safon sy'n gwella canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth.


Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Sir y Fflint yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid trwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, sy'n dod ag awdurdodau lleol, iechyd, y trydydd sector a sefydliadau allweddol eraill ynghyd i gynllunio a darparu gwasanaethau cydgysylltiol. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth gyffredin o angen ar draws y rhanbarth ac ymdriniaeth gydlynol â gofal a chymorth, yn enwedig ar gyfer pobl sydd ag anghenion mwy cymhleth. Trwy'r bartneriaeth hon, rydym yn cyfrannu at flaenoriaethau rhanbarthol, gan gynnwys atal, integreiddio a gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn helpu i greu system fwy cydgysylltiol a chynaliadwy. Trwy gydweithio, rydym mewn gwell lle i rannu adnoddau, datblygu gwasanaethau ac ymateb i alw. Mae hyn yn cynnwys cyd-gomisiynu a chyd-ddatblygu gwasanaethau, yn ogystal â chryfhau cysylltiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Cefnoga'r dulliau hyn ein nod o ddarparu gwasanaethau cyson, o safon sydd wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion pobl a'u teuluoedd.



Strwythur rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol



Gweithlu

Crynodeb o'r gweithlu

- Ar hyn o bryd, mae **1,174** o staff yn cael eu cyflogi o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae hyn gyfwerth â **1,007** o swyddi llawn amser.
- Mae **288** o'r staff yn cael eu cyflogi o fewn y Gwasanaethau Plant, **751** o fewn y Gwasanaethau Oedolion a **135** ym maes Diogelu a Chomisiynu.
- Mae **41.7%** o'n staff yn gweithio'n rhan amser.
- Merched yw mwyafrif y gweithlu, **87.1%**
- Mae ein gweithwyr gofal cymdeithasol o ystod oedran eang. Yr ystod oedran fwyaf yw 55–64 sy'n cyfateb i **29%** o'r gweithlu.
- Mae **57%** o'r gweithlu dros 45 oed.

Recriwtio, cadw staff a throsiant

Mae 134 wedi gadael yn ystod y flwyddyn, ond ar y cyfan, mae niferoedd staff wedi parhau'n gyson, gyda chynnydd bychan yn y niferoedd rhwng dechrau a diwedd y flwyddyn. Y trosiant ar gyfer 2025–26 oedd 11.21%, sy'n gynnydd bach er y llynedd, ond yn parhau i fod yn is na 2023–24.

Mae gennym ni nifer o feysydd lle mae'n her llenwi swyddi gwag. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnal mentrau recriwtio ac ymgyrchoedd marchnata rheolaidd wedi'u targedu i hyrwyddo'r rolau hyn. Er yr ymdrechion, mae rhai swyddi gwag yn dal i fod, ac rydym felly yn defnyddio gweithwyr asiantaeth a darparwyr allanol i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.



Datblygiad proffesiynol

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu Sir y Fflint yn cynnal cyfleoedd dysgu a datblygu o safon uchel, gan ddarparu cymorth wedi'i gynllunio a chymorth ymatebol i fodloni anghenion hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol, a chefnogi swyddogaethau statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu yn cefnogi dysgu cyn ac ôl-raddedig a dysgu galwedigaethol, ac mae'n cynnig rhaglenni hyfforddiant i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa.

Cefnogaeth i Weithwyr

Mae rhaglen cymorth i weithwyr y Cyngor, 'VIVUP', ar gael ar-lein a thros y ffôn bob awr o bob dydd. Mae VIVUP yn rhoi cymorth i weithwyr gyda materion personol ac sy'n ymwneud â gwaith, yn ogystal â chymorth rheoli i ategu polisïau presennol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Canopi i gynnig gwasanaeth hunan-atgyfeirio yn rhad ac am ddim, sy'n cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd gyda chymorth iechyd meddwl.

Lle bo hynny'n briodol, mae ein polisi gweithio hybrid yn cefnogi trefniadau gweithio hyblyg ac ystwyth. Mae hyn yn galluogi llawer o unigolion i daro gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, sydd yn ei dro'n cefnogi lles. Mae

arweinwyr ar gael ac yn hawdd i weithwyr fynd atynt, yn gefnogol, ac ar y cyfan, yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant cywir a bod y sgiliau cywir ganddynt. Mae gan Sir y Fflint bolisi goruchwyllo cynhwysfawr, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn elwa o oruchwyliaeth reolaidd. Mae'r polisi hwn yn hwyluso sgysiau cadarnhaol rhwng gweithwyr a'u rheolwyr, gydag arfarniadau blynyddol sy'n canolbwyntio'n gryf ar les.

Mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu'n cynnig gweithdy ar-lein awr o hyd i roi cyfle i aelodau newydd o dimau'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfod a dysgu am ein prosesau a'n ffyrdd o weithio. Rydym wedi datblygu llyfrynnau cynefino cynhwysfawr i gefnogi cydweithwyr sy'n newydd i'r awdurdod a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod tri mis cyntaf eu rôl, a hefyd i reolwyr sydd newydd eu penodi i'w tywys nhw wrth bontio i'w swyddi rheoli.

Meicro-ofal

Mae Prosiect Meicro-ofal Sir y Fflint yn ddull arloesol o gefnogi pobl neu fusnesau bach i ddarparu gwasanaethau gofal a lles yn yr ardal. Mae Meicro-ofal wedi cryfhau'r farchnad ofal leol drwy gynnig opsiwn gwahanol ar gyfer gofal a chymorth, a thrwy ddod â ffynhonnell newydd o weithwyr gofal i'r farchnad.

Adnoddau ariannol

Mae'r gwasanaeth yn wynebu cynnydd mawr yn y galw ar gyfer 2025/26, a rhagwelir gorwariant sylweddol o ganlyniad. Fel sawl awdurdod arall, rydym yn gweld cynnydd yn yr angen am wasanaeth a chymhlethdod yr angen hwnnw. Mae'r galw'n herio ein gallu i ymateb i gefnogi pobl ag anghenion mwy arferol, a gallu ariannol yr awdurdod lleol. Mae nifer o grantiau cyllid yn dod i ben hefyd, a fydd yn creu risgiau y bydd angen i ni eu rheoli.

I grynhoi, ein sefyllfa ariannol yw:

	2025/26 Cyllideb (net) £m	2025/26 Gwariant (net) £m	2025/26 Amrywedd (net) £m
Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Pobl Hŷn	38.323	40.218	1.895
Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Oedolion Oedran Gweithio	46.518	49.643	3.125
Gwasanaethau Plant	15.329	15.782	0.453
Diogelu a Chomisiynu	4.029	3.169	-0.86
Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol	104.200	108.812	4.613



Rhwng 2024/25 a 2025/26, roedd pwysau cyllidebol o £6.474 miliwn, yn deillio o gynnydd mewn galw, cymhlethdod yr angen, a chost gofal. O'r £6.474 miliwn o bwysau cyllidebol, roedd 70.3% ar gyfer cynnydd mewn ffioedd am ofal wedi'i gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant i gefnogi ein darparwyr gofal annibynnol. Mae'n bwysig nodi, hyd yn oed gyda'r pwysau, ein bod wedi parhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ac wedi gallu gwneud arbedion o £0.756 miliwn.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor wedi buddsoddi rhagor o arian mewn gofal cymdeithasol i gydnabod y costau a'r galw cynyddol. Mae £7 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi gofal cymdeithasol yn 2026/27. Yn rhan o hynny, mae £6 miliwn ar gyfer cynnydd yn y ffioedd i'r

awdurdod lleol am gost y gofal rydym yn ei brynu gan y sector annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gofal preswyl i oedolion a phlant, cymorth i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac oedolion ifanc sy'n gadael gofal. Mae hefyd yn cynnwys £1 miliwn i gefnogi costau isadeiledd gwasanaethau plant i ateb y galw a'r cymhlethdod cynyddol a sicrhau bod safonau diogelu'n cael eu cynnal. Mae angen yr arian hwn i gynnal gwasanaethau presennol. Mae'r buddsoddiad ychwanegol yn cydnabod y gwerth mae'r awdurdod lleol yn ei roi ar gefnogi preswylwyr bregus. Fodd bynnag, fy asesiad i yw bod setliadau cyllid canolog yn annhebygol o gynyddu ar yr un raddfa ag anghenion demograffig lleol.

Mae'r cyllid uchod yn gyfanswm o **£13.474m** miliwn o fuddsoddiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r adran hon yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r wyth o safonau ansawdd o dan bedair adran. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac mae'n disgrifio sut mae'r awdurdod lleol wedi ceisio cyflawni'r safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r dull hunan-asesu yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn canlynol:

- Beth ydym ni'n ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn rydym yn ei wneud?
- Sut ydym ni'n gwybod? E.e. pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau ydym yn eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn?
- Beth ydym ni'n ei wneud yn dda a sut allwn ni wella? Beth yw ein blaenoriaethau i wella, dros y flwyddyn nesaf yn benodol?
- Pa gynnydd rydym wedi'i wneud ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth wnaethom ni?





Safonau Ansawdd

- Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus a chymwys sydd wedi'i gefnogi ac yn gweithio tuag at weledigaeth gyffredin.

Gwobrau Gofal Cymdeithasol 2026 - Arweinyddiaeth Ysbrydoledig

Rydym yn falch iawn o rannu bod Melvin Jones, cyn-Reolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Rheoledig i Blant, wedi'i enwebu ar gyfer y Wobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig. Er bod Mel wedi symud ymlaen i swydd newydd bellach, mae effaith ei arweinyddiaeth yn parhau yng ngwasanaethau plant Sir y Fflint, lle'r oedd ei ymroddiad i bobl ifanc yn gosod safon ymarfer sy'n parhau i fod yn ddylanwadol.

Mae Mel yn arweinydd rhagorol ac ysbrydoledig, a'i ymroddiad i bobl ifanc Sir y Fflint wedi gadael gwaddol a gwneud gwahaniaeth arwyddocaol. Mae ei agwedd ddigynnwrf, gyson a'i ffydd diwyro ym mhotensial pob person ifanc wedi helpu i greu amgylcheddau cefnogol lle maen nhw'n teimlo eu bod yn ddiogel, wedi'u parchu ac yn gallu ffynnu. Mae ei fideo enwebu'n amlgu dyfnder ei effaith yn fwy fyth ac mae modd ei gweld [yma](#).

Rydym ni'n falch o Mel a'r effaith gadarnhaol mae wedi'i chael ar y bobl ifanc mae'n eu cefnogi a'r cydweithwyr mae'n eu hysbrydoli. Mae ei ymrwymiad, ei broffesiynoldeb a'i garedigrwydd yn adlewyrchu'r hyn sydd orau am ofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae ei gydnabod felly yn y Gwobrau'n haeddiannol iawn.

Taliadau Uniongyrchol

Mae Rheolwr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi'i ethol yn Gadeirydd Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru gyfan, yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol ac yn cryfhau proffil cenedlaethol Sir y Fflint.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol wedi ehangu ei gylch gwaith i ddarparu'r un wybodaeth, cyngor a chefnogaeth arbenigol i bobl sy'n dewis hunan-ariannu eu cymorth gofal cymdeithasol â'r rhai sy'n cael Taliadau Uniongyrchol, gan alluogi unigolion sy'n hunan-ariannu i wneud a chynnal eu trefniadau'n ddiogel ac yn gynaliadwy.

Mae Sir y Fflint yn parhau i arwain y ffordd wrth gefnogi gwaith cynnar i gyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd, gan roi mwy o reolaeth dros eu cymorth i bobl sydd ag anghenion iechyd sylfaenol. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau gwaith partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac wedi helpu pobl sy'n gymwys am gyllid Gofal Iechyd Parhaus i symud yn fwy rhwydd o drefniadau ariannu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i drefniadau wedi'u hariannu drwy'r Gwasanaeth Iechyd. Mae BIPBC ar hyn o bryd yn prynu cefnogaeth gan y gwasanaeth ar y pryd yn ôl yr angen, ac mae trafodaethau ar y gweill i edrych ar ddarpariaeth barhaus a chyfleoedd am incwm yn y dyfodol o'r bartneriaeth hon.

Am fwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol cliciwch [yma](#).



Astudiaeth achos:

Siwrnai A trwy Daliadau Uniongyrchol

Mae A yn berson ifanc sy'n byw gyda'u rhieni ac sydd â heriau'n gysylltiedig ag awtistiaeth ers tro. Pan ddechreuodd y gefnogaeth, roedd A yn hunan-esgeuluso'n ddifrifol, yn dioddef o ddiffyg hunanhyder mawr, a heb adael eu hystafell wely ers mwy na blwyddyn. Roedd addysg wedi dod i stop, a'r teulu'n teimlo eu bod mewn argyfwng.

Er potensial amlwg A, roedd wedi mynd yn eithriadol o ynysig. Rhoddwyd cynnig ar gefnogaeth deuluol a gwasanaethau cymunedol, ond nid oedd y rheiny'n ddigon ar eu pennau eu hunain. Fe wnaeth Gweithredu dros Blant awgrymu Taliadau Uniongyrchol, a chefnogodd y tîm gwaith cymdeithasol hynny, i helpu A i weithio tuag at eu targed o fod â bywyd cymdeithasol arferol a gwella sut roedd yn gweld ei hun.

Bu i'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol helpu'r teulu i recriwtio cynorthwy-ydd personol a oedd â'r amynedd a'r sgiliau i feithrin hyder ar gyflymder A. Dim ond trwy ap chwarae gemau cyfrifiadurol roedd modd cyfathrebu i ddechrau, ond dros sawl mis, llwyddodd y cynorthwy-ydd personol i feithrin perthynas gref gydag A a'u cefnogi

i gymryd camau bach i fagu hyder.

Ers hynny, mae A wedi gwneud cynnydd arbennig: gadael eu hystafell wely, cynllunio prydau bwyd syml, mynd am dro, mynd i fwyty, a hyd yn oed teithio i Lerpwl ar y trê – rhywbeth oedd yn edrych yn amhosib' flwyddyn ynghynt. Rhannodd y cynorthwy-ydd personol stori lle buont mewn bwyty a lle bu i A wneud cyswllt llygad a rhyngweithio gyda'r gweinydd. Fel arfer, byddai A yn gwrthod dod, neu pe bai'n dod, ni fyddai'n gallu gwneud cyswllt llygad, codi pen na rhyngweithio... felly roedd hyn yn llwyddiant enfawr! Mae'r profiadau hyn wedi rhoi hwb i hyder A a'u helpu i ailadeiladu eu perthynas gyda'r teulu. Mae A yn ystyried syniadau am ddiwrnodau allan gyda'u cynorthwy-ydd personol a threfnu tripiâu allan i'r gymuned leol yn y dyfodol.

Mae'r ymdriniaeth hon yn seiliedig ar berthynas, sy'n bosib' trwy Daliadau Uniongyrchol, wedi galluogi A i ddechrau ailgysylltu â'r byd a theimlo gobaith at y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol bellach wedi camu'n ôl, gan ddisgwyl y bydd A yn parhau i feithrin eu hannibyniaeth heb gymorth statudol parhaus.

Adborth a gafwyd:

Mae cael taliadau uniongyrchol yn golygu bod ansawdd i fy mywyd i. Mae gen i gefnogaeth ddyddiol; rydw i'n cael gofal da. Mae gen i fywyd cymdeithasol. Dwi'n teimlo bod fy llais yn cael ei glywed a'i barchu. Mae gen i berthynas dda gyda fy merch. Mae'r pwysau wedi'i dynnu oddi arni hi hefyd. Heb Daliadau Uniongyrchol, ni fyddwn yn mynd allan, ni fyddwn yn gallu gofalu amdanaf i fy hun na chynnal fy nhŷ. Fe fyddwn i'n unig. Byddai pwysau mawr ar fy merch i.

Mae'n golygu fo mod i'n gallu elwa o seibiant o ddyletswyddau gofalu a chael blas ar fywyd 'normal' eto, gan gynnwys cyfarfod ffrindiau, siopa ac amser i mi fy hun. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr."

Mae'r gefnogaeth rydyn ni wedi'i chael gan y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn gwbl wych. Fel teulu, rydyn ni'n teimlo eu bod nhw'n gefn i ni a bod help ond un alwad ffôn i ffwrdd.

Mae cael Taliadau Uniongyrchol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy nhad ac wedi ein galluogi ni i wneud dewisiadau am ei ofal. Mae'n system mor dda ac mae fy nhad a ninnau fel teulu'n hapus iawn gyda hi.

Mwy na Geiriau

Yn 2025/26, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn sawl maes, ac mae twf amlwg wedi bod yn hyder a gallu ein cydweithwyr. Yn 2025 yn unig, cynyddodd sgiliau Cymraeg ar draws bob lefel: cofnodwyd bod 422 o gydweithwyr ar Lefel 1 (cynnydd o 5%), 160 ar Lefel 2 (cynnydd o 3%), 36 ar Lefel 3 (dim newid), 34 ar Lefel 4 (cynnydd o 3%), a 37 ar Lefel 5, lle bu'r cynnydd mwyaf o 16%.

Rydym wedi cyflwyno chwech o Gefnogwyr y Gymraeg newydd sy'n hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan gynnig cymorth i weithwyr gyda negeseuon e-bost a galwadau ffôn, cefnogi dysgwyr, annog ynganu cywir, cynorthwyo wrth recriwtio, ac arwain gweithgareddau hyrwyddo fel Dydd Miwsig Cymru ac ein presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn 2025.

Rydym ni hefyd yn falch o fod yn safle peilot ar gyfer Prosiect ARFer, sy'n fenter gwyddorau ymddygiadol sydd wedi'i datblygu gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r gwaith hwn yn helpu ein gweithlu i feithrin arferion bob dydd sy'n gwneud defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o gyfathrebu yn y gweithle. Ynghyd â hyn, rydym wedi ailgyflwyno ein sesiynau 'Paned a Sgwrs' amser cinio yn Tŷ Dewi Sant, gan roi lle anffurfiol i ddysgwyr o bob lefel sgwrsio ac ymarfer eu Cymraeg. Mae'r ymdrechion hyn yn cael effaith amlwg gan fod nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu 2.6% o 659 yn 2024 i 689 yn 2025.

Mewn meysydd eraill, mae'r Un Pwynt Mynediad wedi cael ei adleoli i sicrhau bod cymorth dwyieithog yn cael ei gynnig o'r cyswllt cyntaf, ac rydym yn parhau i ddathlu diwylliant Cymru drwy ein cartrefi gofal a'n lleoliadau gofal ychwanegol, gan nodi digwyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi.

Wrth edrych ymlaen, rydym ni'n canolbwyntio ar ddatblygu ar y momentwm hwn. Ein nod yw ehangu ein rhwydwaith o Gefnogwyr y Gymraeg a chefnogi mwy o gydweithwyr i ddatblygu o Lefel 0 i Lefel 1, ac mae cynlluniau i gynyddu nifer yr unigolion sydd ar Lefelau 1 a 2 yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i gynnal cyswllt gyda Darparwyr Gofal Annibynnol, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chydabod fel rhan allweddol o'r profiad o ofal.



Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol trwy arloesi digidol

Rydym yn parhau i foderneiddio sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio trwy gyflwyno offerynnau digidol newydd i wneud ein gwasanaethau'n fwy effeithlon, hygyrch ac ymatebol. Un o'r prif ddatblygiadau sydd ar y gweill yw caffael Model Iaith Mawr (LLM), sy'n fath o ddeallusrwydd artiffisial sydd wedi'i ddylunio i ddeall a chynhyrchu iaith fel person. Gall y dechnoleg hon helpu i grynhoi gwybodaeth, drafftio dogfennau a nodiadau achos, a dod o hyd i batrymau mewn data. Drwy wneud rhywfaint o'r tasgau gweinyddol cyffredin sydd ar hyn o bryd yn cymryd llawer o amser, bydd yr LLM yn cyfrannu at gadw cofnodion yn fwy cyson ac amserol ac yn rhyddhau ymarferwyr i ganolbwyntio ar agweddau perthynol a chanolbwyntio ar yr unigolyn wrth asesu, cynllunio gofal a chefnogi.

Ynghyd â hyn, rydym yn datblygu ein huchelgais i fod yn 'ddigidol yn ddiofyn' drwy leihau dibyniaeth ar systemau papur a chryfhau sgiliau digidol ein gweithlu. Cam allweddol ar y siwrnai hon yw cyflwyno modiwl hunanwasanaeth newydd ar-lein ar gyfer asesiadau ariannol. Gall unigolion sydd angen cwblhau ffurflen hawlio cymorth ariannol ar gyfer asesiad prawf modd bellach wneud hynny ar-lein, a fydd yn cyflymu'r broses, yn ei gwneud yn fwy cyfleus, ac yn ei gwneud yn fwy tebyg i'r ffordd mae llawer o bobl eisoes yn rheoli agweddau eraill ar eu bywydau bob dydd. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn ein helpu i adeiladu gwasanaeth mwy modern, effeithlon a hygyrch i breswylwyr a gweithwyr. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i ymrwymo i sicrhau nad yw newid i wasanaethau digidol yn creu rhwystrau i bobl, a byddwn yn dal i gynnig dulliau eraill sy'n hygyrch, gyda chymorth ar gael i unrhyw un sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.

Cyflwyno ein system gwybodaeth cleientiaid newydd – Mosaic

Mae Cysylltu Gofal yn rhaglen genedlaethol i wella sut mae gwasanaethau cymunedol, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yng Nghymru'n rhannu gwybodaeth. Yn rhan o'r rhaglen, mae chwe Chyngor Gogledd Cymru wedi prynu system rheoli achosion gofal cymdeithasol newydd o'r enw Mosaic. Dyma'r tro cyntaf y bydd y rhanbarth cyfan yn defnyddio'r un system, a ddylai ei gwneud yn haws i wasanaethau gydweithio. Bydd gan bob Cyngor eu fersiwn eu hunain o Mosaic, a fydd yn eu caniatáu i'w deilwra ar gyfer anghenion lleol wrth elwa o system ranbarthol gyffredin.

Ers dechrau ym mis Mai 2025, mae'r gwaith i gyflwyno Mosaic wedi gwneud cynnydd da a chyson. Gosodwyd sylfeini'r prosiect yn fuan, gan gynnwys trefniadau llywodraethu, hyfforddiant ar gyfer gweinyddwyr y system, a sefydlu grŵp cynrychiolwyr i gefnogi â gwaith ymgysylltu ar draws y gwasanaeth.

Dros y flwyddyn, mae'r cyflenwr wedi adeiladu'r prosesau profi ac wedi cydweithio â thimau Sir y Fflint ar 30 o weithdai llif gwaith, yn llunio gosodiadau'r system ar sail anghenion gweithredol. Mae carreg filltir allweddol i gwblhau'r trosglwyddiad data

cyntaf wedi'i chyrraedd, lle mae gwybodaeth graidd am ddemograffeg cleientiaid wedi'i llwytho i Mosaic. Mae cynrychiolwyr y gwasanaeth yn gweithio gyda chydweithwyr Systemau Busnes i adolygu'r fersiwn cychwynnol a rhoi adborth i sicrhau bod y system yn addas at ei diben. Bydd adolygiad o ffurflenni a gwaith profi derbyniad defnyddwyr (UAT1) yn cael ei gwblhau cyn mis Ebrill 2026.

Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau parodrwydd y sefydliad am newid, wedi cynyddu cyfranogiad y gweithlu, ac wedi amlygu cyfleoedd i wella arferion cofnodi. Mae cyfraniadau yn y gweithdai'n dangos dealltwriaeth gynyddol o fanteision system yn seiliedig ar lif gwaith ac maent wedi cefnogi trafodaethau adeiladol am welliannau.

Mae cydweithio cryf gyda'r cyflenwr a budd-ddeiliaid, gyda chyfathrebu cyson, wedi helpu i gynnal momentwm. Mae'r prosiect yn parhau ar y trywydd cywir, a sylfaen gadarn wedi'i gosod ar gyfer y cam datblygu a phrofi nesaf.

Cryfhau ein gweithlu: recriwtio, datblygu, cadw a chynllunio olyniaeth

Mae adeiladu gweithlu medrus, llawn cymhellant yn ganolog i ddarparu gofal cymdeithasol o safon. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi canolbwyntio ar ddenu ymgeiswyr newydd, cefnogi aelodau presennol y tîm a chreu llwybrau clir ar gyfer gyrfaoedd hirdymor yn Sir y Fflint. Isod, mae trosolwg ar y cynnydd rydym wedi'i wneud, effaith ein gwaith a'r meysydd rydym ni'n parhau i'w datblygu.

Cynnydd a wnaed

Grŵp gorchwyl penodol ar gyfer y gweithlu

Fe sefydlom ni Grŵp Gorchwyl Recriwtio a Chadw'r Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol i arwain ar wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae'r grŵp hwn yn symleiddio prosesau AD ac yn datblygu dulliau beiddgar a modern i hysbysebu a recriwtio.

Ymgyrchoedd marchnata a recriwtio wedi'u targedu

I ddenu gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol cymwys, fe wnaethom ni gomisiynu Creed Communications Ltd i gynnal ymgyrch farchnata wedi'i thargedu am dri mis. Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i gyrraedd yr ymgeiswyr iawn gyda'r negeseuon iawn.

Gwrando ar ein gweithlu

Mae grwpiau ffocws gyda gweithwyr cymdeithasol wedi rhoi golwg werthfawr ar yr hyn sy'n cadw pobl yn eu swyddi. Mae'r sgysiau hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein strategaethau recriwtio a chadw staff, gan sicrhau bod y rheiny'n adlewyrchu profiadau go iawn ar draws y gweithlu.



Recriwtio yn seiliedig ar werthoedd a diwylliant

Mae ein hymgyrchoedd recriwtio newydd yn amlygu'r gwerthoedd sy'n diffinio Sir y Fflint, fel creadigrwydd, arloesedd ac ymreolaeth. Trwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud ein diwylliant yn unigryw, ein nod yw ysbrydoli ymgeiswyr sy'n rhannu'r gwerthoedd hynny.

Ymrwymiad i gydweithio'n genedlaethol

Rydym wedi llofnodi Addewid Cymru Gyfan, sy'n cefnogi dull unol o reoli'r farchnad asiantaethau gwaith cymdeithasol ledled Cymru.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae Sir y Fflint yn parhau i ddilyn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, sy'n brawf o ymrwymiad y Cyngor i roi cyfleoedd teg a chyfartal i ymgeiswyr cymwys.

Arddangos profiadau go iawn

Mae ein hymgyrch presennol i recriwtio gweithwyr preswyl yn cynnwys fideos o weithwyr yn rhannu eu brwdfrydedd am eu rolau ac am weithio yn Sir y Fflint. Mae modd gweld yr ymgyrch [yma](#).

Y gwahaniaeth rydym ni'n ei wneud

Meithrin ein gweithlu ein hunain

Dros y degawd diwethaf, rydym wedi cefnogi 46 o unigolion drwy ein rhaglen i feithrin gweithwyr cymdeithasol yn fewnol, ac mae 35 yn dal i fod gyda ni heddiw, sy'n gyfradd gadw ragorol o 76%.

Cefnogi Therapyddion Galwedigaethol y dyfodol

Bob blwyddyn, rydym ni'n cefnogi dau fyfyrwr therapi galwedigaethol trwy ein rhaglen hyfforddi. Mae un o'r lleoliadau'n cael ei ariannu'n llawn gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sy'n bosib' o ganlyniad i gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd, a'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol.

Deall ein heffaith

I sicrhau bod ein gwaith yn effeithiol, rydym ni'n casglu tystiolaeth ystyrlon gan gydweithwyr ac o ddata'r gwasanaeth. Rydym ni'n gofyn i bobl pam maen nhw'n dewis ymuno â Chyngor Sir y Fflint a pham maent yn gadael, sy'n ein galluogi i gymharu themâu a dod o hyd i feysydd i wella. Mae'r adborth hwn yn ein helpu i fireinio ein hymagwedd ac ein hymateb ar gyfer anghenion y gweithlu.

Beth rydym ni'n ei wneud yn dda ac ymhle gallwn ni wella

Cryfderau

- Pecyn Gwaith Rheolwyr Atebol Cyntaf cynhwysfawr (e-lyfr)
- Cefnogaeth oruchwyliol gref i reolwyr a holl aelodau'r tîm
- Cynnig eang o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu
- Cronfa ddata ganolog o hysbysebion swydd a swydd-ddisgrifiadau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymgysylltu rheolaidd gyda myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn y 3ed flwyddyn i hyrwyddo gyrfaedd yn Sir y Fflint
- Llwybr gyrfa clir i weithwyr cymdeithasol, o rolau newydd gymhwyso i swyddi fel rheolwr tîm
- Tâl cystadleuol i Weithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy
- Cefnogi ymgyrch Gofalwn Cymru, yn cynnwys hyrwyddo gyrfaedd gofal cymdeithasol a mynychu digwyddiadau gyrfaedd mewn ysgolion

Cyfleoedd i wella rhagor

- Symleiddio mwy ar brosesau Adnoddau Dynol
- Ei gwneud yn haws dod o hyd i gyfleoedd am swyddi ac ymgeisio
- Cynyddu adnoddau penodol i hyrwyddo a chefnogi recriwtio ar draws y gwasanaeth

Datblygu gweithlu'r dyfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Meithrin ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain

Mae'r rhaglen Meithrin ein Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain yn parhau i fod yn ganolog i'n strategaeth datblygu'r gweithlu. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi ehangu nifer y gweithwyr dan hyfforddiant sy'n cael eu cefnogi i ateb y galw cynyddol a chryfhau sefydlogrwydd hirdymor y gweithlu. O 2021/22 i 2025/26, mae'r rhaglen wedi cefnogi 27 o weithwyr newydd dan hyfforddiant, gyda rhwng tri a naw bob blwyddyn.

Ehangu cyfleoedd mewn Therapi Galwedigaethol

Mae cyllid blynyddol gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn galluogi pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru i gefnogi un hyfforddai Therapi Galwedigaethol bob blwyddyn. Mae'r llwybr hwn wedi bod yn benodol llwyddiannus i unigolion a oedd yn symud ymlaen o rolau fel Gweithwyr Gofal Uniongyrchol, Technegwyr Cyfarpar Cymunedol a Swyddogion Gofal Cymunedol.

Hyfforddiant achrededig ar godi a symud

Rydym ni'n falch o fod wedi ennill achrediad yr Open College Network (OCN) ar gyfer ein cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr ar Godi a Symud (Pobl), sy'n caniatáu i ni gynnis cymhwyster cydnabyddedig i gydweithwyr mewn rolau gofal a chefnogi uniongyrchol ac ategu ymarfer diogel o ansawdd uchel.

Edrych i'r dyfodol: Academi Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint

O 2026/27, bydd Cyngor Sir y Fflint yn ffurfio partneriaeth â Choleg Cambria i sefydlu Academi Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint, a fydd yn creu llwybr penodol i ddysgwyr sy'n ymuno â'r sector. Bydd yr Academi yn cynnig lleoliadau strwythuredig i fyfyrwyr sy'n astudio cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi profiad cynnar, ystyrlon iddynt o weithio mewn gwasanaeth go iawn.

Drwy ddenu dysgwyr ar ddechrau eu gyrfaedd a dangos ystod y swyddi sydd ar gael, mae'r Academi'n gobeithio codi proffil gofal cymdeithasol fel galwedigaeth bwysig sy'n rhoi boddhad mawr. Bydd myfyrwyr yn magu profiad ymarferol mewn amrywiaeth o dimau, fel darparwyr gwasanaethau mewnol, gwaith cymdeithasol, canolfannau teuluoedd a therapi galwedigaethol, a fydd yn eu helpu i feithrin hyder, sgiliau ymarferol a dealltwriaeth gref o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd y bartneriaeth hon yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu medrus a gofalgarn sy'n barod at y dyfodol, gan gryfhau darpariaeth gofal cymdeithasol ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Sir y Fflint.



Tîm Datblygu'r Gweithlu

Yn ychwanegol at hynny, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, llwyddodd y Tîm Datblygu'r Gweithlu i gyflawni'r canlynol:

- Cynnal **320** o gyrsiau gyda **4,020** o leoedd ar gael. Roedd cyfradd bresenoldeb o **83%** o'r lleoedd a gadwyd.
- **2435** o bobl wedi bod ar y cyrsiau, a **34%** o'r rheiny o'r sector annibynnol a'r trydydd sector
- **1,977** o ffurflenni gwerthuso wedi'u casglu.
- **88%** o'r rhai fu ar gwrs yn dweud eu bod wedi dysgu ohono.
- **83%** yn dweud bod ganddynt fwy o hyder.
- **21** wedi cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd.
- **62** wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Craidd Lefel 2, Ymarfer Lefel 2, neu Ymarfer Lefel 3.
- Cefnogi **46** o hyfforddeion gwaith cymdeithasol (Prifysgol Wrecsam a'r Brifysgol Agored).
- **4** unigolyn yn dilyn y cynllun hyfforddi Therapyddion Galwedigaethol.
- **5** unigolyn wedi cofrestru ar y cynllun hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol, ac 8 o bobl ar y modiwlau K1202/123.
- **12** o Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso wedi mynd drwy ein rhaglen sefydlu gynhwysfawr ac wedi'u cefnogi i ymgymryd â'r Rhaglen Gadarnhau, a 6 wedi'i chwblhau.
- **4** unigolyn yn dilyn y cwrs Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy a'r Cwrs Rhagarweiniol cyn y cwrs Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy.
- **7** o gydweithwyr wedi cwblhau Cymhwyster Addysgwr Ymarfer.

Sefydlu cydraddoldeb ac ymarfer gwrth-hiliol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Sir y Fflint yn nodi ymrwymiad pedair blynedd y Cyngor i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal wrth geisio cael gwasanaethau. Mae'n darparu fframwaith clir i leihau gwahaniaethu, cryfhau cynhwysiant, a chreu sir sy'n fwy cyfartal i holl drigolion Sir y Fflint. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn allweddol i gyflawni'r uchelgais hwnnw, wrth weithio'n unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i sefydlu cydraddoldeb ac ymarfer gwrth-hiliol ar draws y gweithlu.

Drwy'r rhaglen weithredu genedlaethol, dan arweiniad ADSS Cymru, mae Sir y Fflint wedi cyfrannu at gryfhau ymarfer gwrth-hiliol ar draws gofal cymdeithasol, gan gynnwys drwy'r Rhaglen Llysgenhadon Diwylliannol a datblygu Offeryn Hunanasesu Gwrth-hiliol- ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r nod ehangach o sicrhau bod ymrwymïadau gwrth-hiliaeth yn cael eu trosi i fod yn newid ystyrlon, bob dydd.

O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu'n atgyfnerthu'r egwyddorion hyn drwy sesiynau sefydlu rheolaidd i weithwyr newydd ac i aelodau tîm sy'n symud i swyddi uwch. Mae'r sesiynau hyn yn amlygu ein hymagwedd o beidio â derbyn unrhyw hiliaeth, yn egluro llwybrau i rannu pryderon a rhoi gwybod, ac yn cyflwyno'r disgwyliadau sydd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae canllawiau ar wrth-hiliaeth hefyd wedi'u cynnwys yn llyfryn y rhaglen sefydlu fel bod y disgwyliadau'n gwbl glir o'r dechrau.

I weithwyr presennol, mae rhaglen hyfforddiant ar wrth-hiliaeth

wedi'i chynnal yn ystod y flwyddyn, a'r gwasanaeth wedi ymgysylltu'n dda â hi. Mae'r holl uwch reolwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth, ac mae cynlluniau ar y gweill i ehangu hyn i reolwyr timau a dirprwy reolwyr timau. Yn ystod 2025/26, mae 57 o gydweithwyr wedi bod mewn sesiynau penodol ar wrth-hiliaeth, a bydd rhagor o gyfleoedd dysgu wrth i Ofal Cymdeithasol Cymru gyflwyno modiwlau e-ddysgu newydd yn 2026.

Mae ein gwaith ehangach ar gydraddoldeb yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl; trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac ymwybyddiaeth LHDTC+, ac fe gwblhaodd 41 o gydweithwyr sesiynau LHDTC+ eleni. Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, a ddarparwyd mewn partneriaeth â'r Uned Diogelwch Trais Teuluol, eto yn cryfhau hyder i adnabod ac ymateb i gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd bod un gŵyn yn seiliedig ar hiliaeth yn erbyn aelod o'n gweithlu. Mae hyn yn ategu mor bwysig yw adolygu cwynion am y posibilrwydd o wahaniaethu a sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu cefnogi wrth wynebu ymddygiad amhriodol.

Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn dangos sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith, i greu gwasanaeth mwy diogel, teg a chynhwysol i'r gweithlu a'r trigolion.

Blaenoriaethau 2026/27

- Gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a dangos sut mae eu 'llais' nhw'n cyfrannu at eu cynllun asesu, gofal a chymorth a datblygu canlyniadau personol
- Dangos cynnig rhagweithiol o eiriolaeth annibynnol i bobl sydd angen y cymorth hwn
- Sefydlu model ymarfer 'cyfathrebu cydweithredol'
- Datblygu Polisi Dewisiadau fel bod pobl yn deall yr opsiynau a'r hyn y gallwn ni ei gynnig i ddarparu ar gyfer eu hanghenion cymwys sydd wedi'u hasesu
- Meithrin capasiti a ffocws ar gyfer adolygiadau amserol o ansawdd, yn cynnwys taliadau uniongyrchol
- Buddsoddi yn ein gweithlu trwy recriwtio a datblygu gyda'r bwriad o feithrin ein gweithwyr ein hunain
- Adolygu ein strwythur i wella gwytnwch a lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth
- Cwblhau hunanasesiad gwrth-hiliaeth, a chynllun gweithredu clir gydag o
- Paratoi a dechrau cyflwyno'r system TG newydd (Mosaic), gyda digon o hyfforddiant i staff
- Treialu a defnyddio offerynnau deallusrwydd artiffisial yn ddiogel i roi mwy o amser i staff ganolbwyntio ar weithio gyda phobl



Safonau ansawdd

- Mae'r angen am ofal a chefnogaeth wedi'i leihau a'r cynnydd o ran angen wedi'i atal, wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl.
- Mae gwytnwch o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gefnogaeth, gan gynnwys gofawyr, i ddysgu, datblygu, a chyfrannu at gymdeithas.

Dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal

Mae Sir y Fflint yn parhau i ehangu ei darpariaeth breswyl a maethu fewnol i ateb y galw cynyddol a sicrhau digonolrwydd hirdymor. Yn rhan o rwydwaith cenedlaethol Maethu Cymru o 22 awdurdod lleol, rydym ni'n parhau i ymrwymo i ddarparu cartrefi sefydlog, gofalgar ac nid-er-elw i blant. Er y diffyg gofawyr maeth sydd ledled y DU, mae Sir y Fflint wedi gallu cynnal cymuned faethu gref a phrofiadol, a gafodd ei dathlu yn ein Gwobrau Gofawyr Maeth ym mis Rhagfyr 2025.

Mae'r gwaith mae'r adroddiad hwn yn manylu arno'n cael ei gymell gan ymrwymiad i fodel gofal nid-er-elw, sy'n canolbwyntio ar gryfhau darpariaeth fewnol a lleihau dibyniaeth ar ddarparwyr annibynnol costus.

Maethu

Fe lwyddodd Maethu Cymru Sir y Fflint i sicrhau twf sefydlog, ystyrlon yn 2025–2026, gan gryfhau'r gymuned faethu fewnol a gwella sefydlogrwydd i blant.

Prif gyflawniadau

- Crëwyd **15** o leoliadau maethu newydd drwy wyth aelwyd newydd eu cymeradwyo a mwy o gapasiti ymysg gofalwyr presennol.
- Fe wnaeth ansawdd recriwtio wella, fel a welwyd yn y cyfraddau isel a roddodd y gorau i'r broses yn ystod y camau asesu a chynnydd o **75%** yn y defnydd o'r wefan ar ôl gwell ymgysylltu digidol a lansio gwefan newydd.
- Llwyddodd y model 'Paned gyda Gofalwr' i gysylltu darpar ymgeiswyr â gofalwyr profiadol ac ers hynny mae wedi'i fabwysiadu gan bump o awdurdodau eraill Maethu Cymru.
- Fe wnaeth partneriaethau â busnesau lleol ehangu'r cyrhaeddiad recriwtio, gan gynnwys coleri cwpanau coffi â chod QR arnynt a oedd yn hwb i ymholiadau yn ystod Pythefnos Gofal Maeth.
- Roedd cyfraddau cadw gofalwyr yn parhau i fod yn gryf, gyda chefnogaeth 13 o ddigwyddiadau lles, polisiâu wedi'u diweddarau, canllawiau digidol hygyrch, a thair rhaglen hyfforddi newydd.

Effaith

- Gall mwy o blant bellach aros yn Sir y Fflint, sy'n rhoi parhad o ran addysg, cysylltiadau cymunedol ac amser gyda theulu.
- Lleihau dibyniaeth ar asiantaethau maethu annibynnol, heb gynydd mewn achosion o symud heb ei gynllunio.
- Mae adborth cadarnhaol a chyfraddau cadw sefydlog yn arwydd o gymuned faethu gadarn sy'n teimlo wedi'i chefnogi.



Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos

- Mae digwyddiadau ymgysylltu, data cyfarfodydd amhariad a metrigau recriwtio oll yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd, lleoliadau sefydlog a gweithgarwch recriwtio effeithiol.

Meysydd i'w cryfhau

- Mae parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu'n hanfodol er mwyn cynnal y twf a chynnal model nid-er-elw, o ddarpariaeth fewnol yn bennaf.
- Mae angen adolygu'r cynnig ariannol er mwyn parhau i fod yn gystadleuol ag awdurdodau cyfagos, yn enwedig o ran eithriadau Treth y Cyngor.
- Bydd datblygu rhagor ar bartneriaethau â busnesau lleol a model cefnogaeth gymunedol cryfach yn gymorth i recriwtio ac yn cyd-fynd ag ethos y rhaglen Mockingbird.

I gael mwy o wybodaeth am faethu, cliciwch [yma.](#)



Rhaglen Mockingbird y Rhwydwaith Maethu

Fe wnaeth Mockingbird barhau i ehangu a chryfhau yn 2025–2026, gyda thystiolaeth glir o fwy o sefydlogrwydd, cefnogaeth gymunedol gref, a thwf cynaliadwy.

Prif gyflawniadau

- Tri chlwstwr wedi'u sefydlu'n llawn bellach yn cefnogi tua 30 o aelwydydd maethu.
- Mae ymarfer Sir y Fflint wedi'i amlygu ar lefel Prydain, ac enghreifftiau wedi'u rhannu â'r Rhwydwaith Maethu yn rhan o waith gwerthuso ledled y DU.
- Mae gwaith i ehangu'n mynd rhagddo'n dda: cychwynnodd trydydd Canolbwynt Gofalwyr ym mis Chwefror gyda theuluoedd yn barod i ymuno o'r rhestr aros, ac mae pedwerydd i fod i gychwyn ddechrau'r haf.
- Mae cyllid hirdymor gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau tan 2028, sy'n rhoi sefydlogrwydd i'r rhaglen.
- Mae prosiect Gofal Lleol Transitions yn parhau i ategu Mockingbird drwy gefnogi plant sy'n dychwelyd o ofal preswyl i drefniadau maethu lleol, nid-er-elw.

Effaith

- Mae plant yn elwa ar fodel gofal ar arddull teulu, perthnasoedd cryfach, a chymuned faethu mwy cysylltiedig.

- Mae gwerthusiadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2025 ac Ionawr 2026 yn dangos bod lleoliadau o fewn Mockingbird dair gwaith yn fwy sefydlog na'r rhai tu allan i'r model.
- Mae clystyrau sefydledig yn lleihau pwysau ar y tîm maethu, a gofalwyr datrys heriau o fewn eu rhwydwaith cefnogaeth eu hunain yn fwyfwy aml.

Tystiolaeth o ansawdd

- Mae adrodd yn fisol i'r Rhwydwaith Maethu'n cofnodi oriau cefnogi, nosweithiau aros dros nos ac ymgysylltu.
- Mae Adroddiad Effaith Mockingbird gan Sir y Fflint ei hun a'r Adroddiad Effaith Mawr cenedlaethol yn defnyddio data cyson a gyflwynwyd gan y gwasanaeth.

Cryfderau a meysydd i'w datblygu

- Mae'r gwaith i ehangu'n cael ei wneud yn gynaliadwy, wedi'i ategu gan sicrwydd o gyllid tan 2028.
- Mae parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu'n hollbwysig, gyda Dirprwy Reolwr Tîm bellach yn arwain y rhaglen.
- Bydd angen strategaeth hirdymor y tu hwnt i 2028 er mwyn cynnal momentwm a sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol.

Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)

Mae gweithgarwch Gwarcheidiaeth Arbennig yn 2025–2026 yn dangos twf amlwg, gwell cefnogaeth i ofalwyr a gwell canlyniadau o sefyllfa barhaol i blant.

Prif gyflawniadau

- Caniatáu 16 GGA yn ystod y cyfnod adolygu, gydag un dyddiad llys eto i ddod a phedwar yn aros i gael eu trefnu. Mae naw asesiad arall ar y gweill.
- Cynyddu capasiti asesu trwy rolau llawn amser penodol, wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad wedi'i dargedu.
- Cyflwyno cynnig cefnogaeth cryfach, yn cynnwys grwpiau arbenigol, hyfforddiant, newyddlenni ac ymgysylltu rheolaidd.
- Ehangu adnoddau Mockingbird i deuluoedd GGA, i sicrhau parhad i gefnogaeth wrth bontio o faethu.
- Cefnogaeth ar ôl gwneud y gorchymyn wedi'i chryfhau, gan helpu i gynnal trefniadau cyfreithiol.

Effaith

- Mae llai o blant bellach yn parhau i fod ar Orchmynion Gofal Llawn neu angen ymyrraeth gyfreithiol barhaus.
- Mae gwarcheidwaid wedi'u paratoi'n well trwy hyfforddiant, adnoddau a chynlluniau cefnogaeth sy'n diwallu anghenion pob plentyn a gofalwr.

Tystiolaeth o ansawdd

- Mae trefniadau GGA yn cael eu cynnal, wedi'u cefnogi gan adborth cadarnhaol a gasglwyd trwy arolygon mewn digwyddiadau.
- Metrigau'n dangos mwy o blant yn aros gyda'u gofalwyr dan GGA yn hytrach na pharhau drwy achosion cyfreithiol neu ar Orchmynion Gofal Llawn.

Cryfderau a meysydd i'w datblygu

- Mae'r gwasanaeth yn gwneud cynnydd da, ond mae disgwyliadau 'dim niwed' gan y llysoedd yn parhau i fod yn anghyson, gydag amrywio mawr rhwng awdurdodau lleol.
- Mae pecynnau ariannol yn parhau i gael eu hystyried yn ofalus, a gofalwyr maeth yn cadw eu lwfans cyn-gorchymyn am 24 mis cyn cynnal prawf modd.
- Bydd angen rhagor o fuddsoddiad yn y gweithlu i allu parhau i gynnal asesiadau amserol o ansawdd uchel a datblygu'r gwasanaeth.

Am fwy o wybodaeth am Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig cliciwch [yma](#).

Therapi Aml-systemig ar gyfer cam-drin ac esgeuluso plant

Mae Sir y Fflint yn parhau i ehangu ei gwasanaethau Therapi Aml-systemig i gefnogi plant sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod. Yn 2025/26, sefydlwyd tîm arbenigol newydd i ddarparu triniaeth benodol iawn sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a BIPBC, ac mae'n rhan o astudiaeth glinigol ehangach gyda Phrifysgolion Teesside a Chaint.

Mae'r tîm yn canolbwyntio ar wella diogelwch fel bod plant yn gallu aros gartref gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau. Mae therapyddion yn gweithio'n helaeth gyda rheini i fynd i'r afael â phroblemau fel defnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl, ac maent wedi'u hyfforddi i gynnig amrywiaeth o ymyraethau arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys Therapi Atgyfnerthu ar gyfer camddefnyddio sylweddau, Therapi Cyswllt Estynedig ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma (PTSD), Therapi Ymddygiad Gwybyddol sy'n Canolbwyntio ar Drawma ar gyfer plant sy'n profi symptomau trawma, Therapi Teuluoedd a Pharau, Therapi Ymddygiad Gwybyddol Rheoli Dictor, ac ymyraethau systemig ehangach sy'n cefnogi'r teulu cyfan.

“

Fe wnaeth un rhiant ddisgrifio eu profiad â Therapi Aml-systemig ar gyfer cam-drin ac esgeuluso plant fel hyn:

“Dwi'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi ac maen nhw'n helpu llwyth arna' i. A dweud y gwir, fyddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud na ble i droi heb y gwasanaeth. Diolch o galon i chi i gyd”.

”

Y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Hyrwyddo 'Stori Ymennydd' Rhydychen mewn datblygiad plant

Mae Stori Ymennydd ryngwladol Rhydychen yn darparu fframwaith hygyrch yn seiliedig ar dystiolaeth i egluro sut mae profiadau cynnar, gan gynnwys trawma, yn siapio datblygiad yr ymennydd a chanlyniadau gydol oes i unigolion. Mae'n pontio'r bwlch rhwng dealltwriaeth wyddonol ac ymarferoldeb o fewn gwasanaethau rheng flaen.

Gan adeiladu ar gynnydd dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae 214 o ymarferwyr o leoliadau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar wedi cwblhau hyfforddiant ar draws 24 o sesiynau, yn dysgu sut mae adfyd cynnar ac amgylcheddau sy'n meithrin plant yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad niwrolegol. Cynyddodd sgoriau gwybodaeth o 20% i 81% ar ôl yr hyfforddiant, ac fe wnaeth 171 o gyfranogwyr roi sgôr o 9–10 allan o 10 i'r sesiynau.

Mae integreiddio'r dull hwn yn rhan o ymarfer dyddiol wedi annog sgysiau mwy myfyriol rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd, wedi cryfhau iaith gyffredin ynglŷn â datblygiad ymenyddol, ac wedi creu cyfleoedd mwy eglur am gymorth cynnar, effeithiol trwy gydnabod bod gan bawb eu 'stori ymennydd' eu hunain.

Mae gweithdai rheolaidd a sesiynau myfyriol wedi cryfhau cydweithio, gan ganiatáu i gydweithwyr rannu arferion gorau a heriau a gwella hyder i adnabod adfyd a chychwyn sgysiau ystyrlon â theuluoedd. Mae adborth cynnar yn dangos gwell gweithio amlasiantaeth a defnydd ehangach o iaith gyffredin ynghlwm â datblygiad ymenyddol a gwytnwch, gan osod y sylfeini ar gyfer integreiddio Stori Ymennydd Rhydychen yn ehangach mewn gwasanaethau rheng flaen, ac mae cynlluniau i'w ehangu ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

Mae Stori Ymennydd Rhydychen yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy hyrwyddo atal, meddwl yn hirdymor, cydweithio ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma, gan gefnogi ymatebion mwy cymesur ac ataliol i deuluoedd. Gall buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac amgylcheddau cefnogol helpu i leihau costau hirdymor i gymdeithas sy'n gysylltiedig ag anawsterau iechyd meddwl, datgysylltu oddi wrth yr ysgol, a salwch cronig. Bydd gwaith yn parhau gyda phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a ledled y DU, yn cynnwys Prifysgol Rhydychen, i ddatblygu'r Stori Ymennydd, datblygu achrediad, a sefydlu model cynaliadwy ar gyfer defnydd ehangach.

Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau (EPEC) – Awtistiaeth: model ymyrraeth gynnar cymunedol

Mae'r model EPEC (Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau) yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel dull rhianta cymunedol yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cryfhau ymyrraeth gynnar ac yn lleihau pwysau ar wasanaethau arbenigol. Mae tîm EPEC ar gyfer y DU yn hyfforddi timau lleol fel hwyluswyr mewn nifer o raglenni, yn cynnwys y rhaglen graidd, 'Bod yn Rhiant' a sawl rhaglen arall sydd wedi'i thargedu, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio darparu cefnogaeth hygyrch, strwythuredig i deuluoedd y mae gan eu plant anghenion niwroddatblygiadol wedi'u diagnosio neu sy'n dod i'r amlwg. Mae'r elfen benodol ar gyfer awtistiaeth yn cynnig offerynnau ymarferol yn seiliedig ar berthnasoedd a chefnogaeth deuluol, sy'n helpu rhieni i weithio'u ffordd drwy systemau iechyd ac addysg cymhleth. Drwy hyfforddi rhieni lleol i arwain rhaglenni, mae EPEC yn enghraifft o ddatblygiad cymunedol yn seiliedig ar asedau, yn adeiladu rhwydweithiau cymorth cynaliadwy rhwng cymheiriaid.

Yn Sir y Fflint mae EPEC Awtistiaeth yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd yn rhan o gyfres ehangach o raglenni dan arweiniad cymheiriaid. Mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fel cynnig ymyrraeth gynnar hollbwysig i deuluoedd sy'n disgwyl am gymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), Timau Datblygiad Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar (Datblygiad Cyn-ysgol gynt) a'r Tîm Niwroddatblygiadol. Gan ddefnyddio'r fframwaith NYTH, mae'r tîm wedi sefydlu'r rhaglen ac ehangu capasiti gwirfoddolwyr i ateb y galw cynyddol. Mae sesiynau'n cael eu darparu mewn Canolfannau Teuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar croesawgar,

sy'n helpu i leihau rhwystrau i deuluoedd.

Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth hanfodol yn ystod y cyfnodau aros rhwng gwasanaethau. Mae ei integreiddio â gwasanaethau plant yn ehangach wedi cryfhau ei henw da fel llwybr dibynadwy am gymorth cynnar. Mae gwaith partneriaeth diweddar gyda CAMHS y Blynyddoedd Cynnar a Thimau Datblygiad Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar yn BIPBC wedi creu rhwydweithiau cymorth cydlynol i deuluoedd sy'n ceisio deall ymddygiad eu plentyn, adeiladu perthnasoedd drwy chwarae a chefnogi anghenion cyfathrebu.

Yn 2025/26, fe wnaeth y tîm gynnal tri chwrs EPEC Awtistiaeth gyda chyfartaledd o 11 o rieni'n dilyn pob cwrs. Mae cwrs haf 2026 eisoes yn llawn, ac mae rhestr aros gan fod galw cynyddol. Mae pob gwirfoddolwr, fel rhiant, yn dilyn y rhaglen ac yn gallu gwirfoddoli i gael hyfforddiant ar y rhaglen graidd ac yna arbenigo. Yn ystod 2026/27, bydd mwy o wirfoddolwyr yn cael cynnig cyfle i gael hyfforddiant ar y rhaglen ar gyfer awtistiaeth, a fydd yn helpu i ehangu'r ddarpariaeth. Mae llawer o'r rhieni â diagnosis ffurfiol neu anffurfiol eu hunain, ac wedi gwella eu dealltwriaeth eu hunain, cyn helpu eraill.

Yn ychwanegol at hyn, fe wnaeth carfan o rieni wrthod y rhaglen oherwydd ymrwymïadau gwaith a pheth pryder ynglŷn â rhaglen am 10 wythnos a beth allai ei olygu. Ceisiodd y tîm oresgyn y rhwystr hwn, ac wrth weithio gyda'r tîm EPEC ar



gyfer y DU a'r tîm EPEC yng Nghyngor Dinas Sheffield, fe wnaethant ddatblygu gweithdy dwyawr am dair wythnos i rieni, a oedd yn cynnig fersiwn llai dwys gyda strategaethau allweddol, gan geisio lleihau unrhyw bryder. Mae wedi cymryd 12 mis i ddatblygu hwn, ac o'r peilot cyntaf, cofrestrodd 66% o rieni ar y cwrs llawn. Mae'r tîm ymchwil EPEC yn cynnal gwerthusiad sydd i fod i gael ei gwblhau yn 2026/27.

“

Rhannodd y rhieni'r adborth canlynol am y rhaglen;

“Roedd y grŵp ei hun a'i awyrgylch yn wych. Fe welais i nad oeddwn i ar fy mhen fy hun. Mi ddysgais sut i ddeall fy mhlentyn a delio gyda sefyllfaoedd anodd.”

“Mae fy mhlentyn wedi cael llai o byliau o golli rheolaeth ac rydw i wedi gallu meithrin perthynas ddyfnach efo fy mhlentyn hynaf.”

“Roeddwn i bob amser yn teimlo ein bod ar ein pennau ein hunain fel teulu, heb gymorth a heb neb yn malio, dim ond yn barnu ac yn gwneud sylwadau. Mae'r cwrs wedi fy helpu i weld nad ydyn ni ar ein pennau ein hunain.”

”

Rhaglen gyfalaf Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar

Mae'r Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau gofal plant pwrpasol, o safon, sy'n cryfhau cysylltiadau ag ysgolion ac yn ehangu mynediad at ofal plant wedi'i ariannu. Yn gynharach eleni, agorodd Cylch Tŷ Mair yn Oakenholt i gynnig darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i deuluoedd, ar gyfer hyd at 40 o blant yn eu hadeilad newydd.

Mae'r gwaith adeiladu'n dod yn ei flaen ar brosiect Ysgol Gynradd Cornist yn y Fflint, i greu 40 o leoedd gofal plant ychwanegol mewn ardal sydd wedi'i dynodi fel un heb ddigon o ddarpariaeth yn Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022. Y bwriad yw cwblhau'r prosiect ym mis Mehefin 2026, ac mae 58 o deuluoedd eisoes wedi mynegi diddordeb i ddefnyddio'r cynnig gofal plant newydd.

Bydd y cyfleusterau modern yma'n cynnig mannau gweithio cefnogol gyda digon o adnoddau i gydweithwyr, ac yn annog creadigrwydd, lles a datblygiad proffesiynol. Mae cydweithio agosach rhwng timau gofal plant ac ymarferwyr mewn ysgolion yn cryfhau perthnasoedd, yn ei gwneud yn haws i blant bontio i addysg llawn amser ac yn meithrin ymdeimlad o gymuned.

Mae rhagor o ddatblygiadau cyfalaf ar y gweill ar draws sawl safle yn rhan o raglen 2025–2028, a phrosiectau eraill

bellach yn symud i'r camau datblygu a chaffael. Mae dros £5 miliwn o fuddsoddiad wedi'i gymeradwyo i gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gwell cynnig ar hyd a lled Sir y Fflint, ynghyd â gofal plant dros dro, yn gwella hygyrchedd ac argaeledd. Drwy weithio'n agos gyda darparwyr i gynnig gofal plant o safon uchel, mae'r gwasanaeth yn helpu i leihau bylchau datblygiadol i blant sy'n byw mewn tlodi neu galedi, gyda manteision hirdymor i ofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuencid a gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyweddodd Mrs X:

'Mae fy mhlant i mor lwcus o gael cyfleusterau mor arbennig. Doeddwn i ddim wir wedi meddwl iddyn nhw fynd i ysgol Gymraeg, ac mae hon ar stepen fy nrws i, ond ar ôl i mi weld y cyfleusterau gofal plant hyfryd a siarad gyda'r staff, roeddwn i'n gwybod mai hwn oedd y lle iddyn nhw. Mae fy merch i'n mynd i mewn dan wenu ac yn dod allan wedi blino'n lân wedi'r chwarae!'

Adolygiad o Ganolfannau Teuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar

Bydd yr adolygiad o Ganolfannau Teuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau bod canolfannau wedi'u lleoli yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf a lle maent fwyaf ymarferol; wrth nodi'r bylchau ar gyfer datblygu yn y dyfodol fel y gall teuluoedd fanteisio ar fannau diogel, croesawgar a gofalgwr gyda chyfleoedd chwarae cynhwysol ac adnoddau priodol ar gyfer datblygiad sy'n adlewyrchu'r Pum Ffordd at Les a fframweithiau fel NYTH.


Mae'r Canolfannau Teuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar yn fath o 'ddrws ffrynt i atal' ar gyfer mwy na 1,300 o rieni/gofalwyr, gan gynnwys 1,160 o blant Dechrau'n Deg, 186 o deuluoedd estyn allan (tu hwnt i ardaloedd mae Dechrau'n Deg yn eu targedu), 121 o blant ag anghenion ychwanegol, a 656 sydd angen cefnogaeth â gofal plant oherwydd anghenion. Mae pum canolfan – Treffynnon, y Fflint, Aston, Bwcle a Chei Connah, yn cynnig cefnogaeth amlasiantaeth a gwasanaethau estyn allan, ac mae darpariaeth gofal plant ychwanegol yn cael ei chynnig mewn canolfannau yng Ngronant a Sealand.

Wrth i Dechrau'n Deg nesáu at ei 20fed flwyddyn yn 2026, mae adolygiad strategol yn cael ei gynnal ar yr holl Ganolfannau Teuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod yr ystâd, y gweithlu a'r model cyflawni'n cyd-fynd ag anghenion lleol ac amcanion y rhaglen. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar

wneud y defnydd gorau o leoliadau'r awdurdod lleol a mannau cymunedol, cydleo'i'n well â phartneriaid yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i dargedu ardaloedd difreintiedig a galw sy'n datblygu. Drwy ddilyn dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y nod yw cael mwy o effaith, gwella hygyrchedd, creu mannau mwy croesawgar i deuluoedd, a sicrhau gwerth cymdeithasol clir i bob lleoliad er mwyn i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r parhad i fuddsoddiadau grant yn y canolfannau eleni'n adlewyrchu ymrwymiad cryf i atal ac i reoli'r galw yn y Gwasanaethau Plant. Y nod wrth gryfhau canolfannau cymunedol amlasiantaeth yw lleihau faint o achosion sydd angen gwasanaethau statudol, gwella canlyniadau hirdymor i blant, a chefnogi cynaliadwyedd ariannol mewn hinsawdd ariannol heriol.

Am fwy o wybodaeth am y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn Sir y Fflint, cliciwch [yma](#) neu sganio'r cod QR isod:



“

Adborth gan Nesta, Uwch Ddawnsodwr, Sefydliad Ymchwil ac Arloesi'r DU:

“Roeddwn i'n falch iawn o weld eich datblygiadau data yn y digwyddiad cenedlaethol. Roedd eich cronfa ddata a'ch dangosfyrddau wedi gwneud argraff fawr ar bobl – mae sawl un wedi fy holi am gronfa ddata Sir y Fflint. Mae'n cael ei chyfrif yn safon aur i wneud penderfyniadau ar sail data yn y blynyddoedd cynnar gan lawer. Rydw i bob amser yn cael fy mhlesio gan eich systemau arloesol, a hefyd sut mae pob datblygiad yn rhoi teuluoedd wrth eu gwraidd, gan sicrhau bod Sir y Fflint yn gallu bod yn rhagweithiol a gweld angen yn gynharach er mwyn gallu gwella canlyniadau i fabanod a theuluoedd.”

”

Defnyddio data a Power BI i lywio datblygiad gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth

Ers 2019, mae tîm Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd Sir y Fflint wedi datblygu dull arloesol o fonitro perfformiad a chasglu data mewn gwell ffordd i gefnogi plant ifanc a'u teuluoedd yn well. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at greu cronfa ddata ddiogel wedi'i dylunio ar gyfer Sir y Fflint, sy'n galluogi cofnodi data amlasiantaeth yn gywir ar draws gwasanaethau Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd, gan gynnwys rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru a gweinyddu gofal plant wedi'i ariannu. Er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym a sut rydym yn gwneud penderfyniadau, rydym bellach yn defnyddio dangosfyrddau Power BI byw – adnodd data sy'n cynnig dadansoddiadau hygyrch, ar y pryd o berfformiad gwasanaethau.

Drwy Power BI, mae'n haws edrych ar ddata cymhleth ar ofal a datblygiad babanod a phlant ifanc, sylwi ar dueddiadau, a monitro canlyniadau mewn amser real. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth i arweinwyr a thimau rheng flaen i addasu ymyraethau, defnyddio adnoddau'n effeithiol, ac addasu strategaethau wrth i ni weld beth sy'n gweithio a ble mae angen gwella. Er enghraifft, roedd gweld data ar iaith a lleferydd yn haws yn amlygu meysydd lle'r oedd angen cefnogaeth ychwanegol, a arweiniodd at 15% o gynnydd mewn darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer teuluoedd. Mae gwneud dadansoddeg yn rhan greiddiol o

ddylunio gwasanaethau'n cyfrannu at welliant parhaus, mwy o atebolrwydd, ac ymateb yn well i anghenion cymunedol.

Mae timau BIPBC a'r Awdurdod Lleol sydd wedi'u cydleo'i'n cofnodi gwybodaeth mewn system gyffredin, sy'n creu darlun cyfannol o ddatblygiad pob plentyn, cefnogaeth y rheini, a chanlyniadau disgwylidig fel magu ymatebol, gwell iaith a lleferydd, ac awyrgylch dysgu meithringar yn y cartref. Mae'r hyn a ddechreuodd fel adnodd i fonitro grantiau gan Lywodraeth Cymru wedi datblygu'n system gynhwysfawr sy'n gymorth i adnabod teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau cymhleth yn ddaearyddol, o safbwynt demograffig, ac yn gyfannol, gan alluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r gwasanaeth, wedi'u targedu'n well.

Yn ddiweddar, bu'r tîm yn arddangos y gwaith hwn mewn digwyddiadau gan Lywodraeth Cymru i ddangos cynnydd Sir y Fflint a chefnogi parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni grantiau i blant a chymunedau. Mae cynlluniau at y dyfodol yn cynnwys ehangu prosesau casglu data i gynnwys adborth rhieni ac integreiddio dadansoddeg ddaroganol i geisio rhagweld anghenion sy'n datblygu. Bydd parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth yn seiliedig ar ddata'n helpu i sicrhau cymorth ymatebol o safon uchel i deuluoedd.

Gwiriad gwella Gwasanaethau Plant Sir y Fflint

Ar ôl Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Tachwedd 2023, cafodd Gwasanaethau Plant Sir y Fflint Wiriad Gwella gan AGC rhwng 14 ac 16 Gorffennaf 2025.

Canfu'r gwiriad, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd a nodwyd yn ystod yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad, gynnydd cadarn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i deuluoedd a phlant.

Nodai'r adroddiad bod angen adeiladu ar fomentwm i ddatblygu ac ymgorffori gwelliant parhaus ymhellach, gan fynd i'r afael â meysydd penodol i wella ac atgyfnerthu ymarfer a darpariaeth gwasanaeth.

I ymateb i ganfyddiadau AGC, mae Gwasanaethau Plant Sir y Fflint yn gwneud cyfres o welliannau i gryfhau sut mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cefnogi, a llawer o'r rheiny wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn.

Mae eu camau gweithredu a'u statws neu'r dyddiad cwblhau targed wedi'u crynhoi isod:

Wedi'u cwblhau

- Gweithiwr addysg llawn amser wedi'i sefydlu yn y gwasanaeth drws ffrynt.

- Cyhoeddi canllaw i helpu cydweithwyr i gael gafael ar ddata a'i ddefnyddio.
- Diweddaru'r rhaglen sefydlu ar gyfer pob gweithiwr newydd, gan gynnwys deddfwriaeth Cymru.
- Cyhoeddi pecyn sefydlu newydd.
- Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a datblygu.
- Rhannu canllawiau wedi'u diweddaru ar drothwyon gyda'n gweithlu.
- Diweddaru'r Fframwaith Perfformiad ac Ansawdd.
- Edrych ar drefniadau cadw cofnodion mewn cyfarfodydd diogelu.
- Cyflwyno templed Grŵp Craidd safonol.
- Gwella prosesau cofnodi gwahoddiadau a phresenoldeb cyfarfodydd.
- Sicrhau gwahoddiadau cyson i gyfarfodydd strategaeth.
- Cryfhau trosolwg rheolwyr o waith amlasiantaeth.

Camau cychwynol wedi'u cwblhau a'r gwaith yn parhau

- Cryfhau'r Prosiect Ailgyssylltu i gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau.
- Gwella recriwtio a chadw gofalwyr maeth.
- Gwella cefnogaeth ar gyfer teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Gwella llwybrau tai ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.
- Adolygu bylchau yn y gweithlu a threfniadau ag asiantaethau.
- Adolygu system rheoli achosion Mosaic.
- Cyflwyno clinigau perfformiad.

- Blaenoriaethu adolygiadau ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.
- Diweddarau'r broses adolygu flynyddol ar gyfer taliadau uniongyrchol.
- Safoni llythyrau canlyniad i atgyfeirwyr.
- Gwellu amseroedd ymateb i bryderon cychwynnol.
- Adolygu prosesau cyfarfodydd diogelu.
- Gwellu cydymffurfiaeth ag amserlenni asesu.
- Parhau â hyfforddiant ac archwiliadau Grŵp Craidd.

Camau a ddygwyd ymlaen i 2025/26

- Cyfarfod â phartneriaid i alinio prosesau adolygu.

Mai 2026

- Symud plant i leoliadau mwy addas lle bo angen.

Mehefin 2026

- Ehangu'r model gofal maeth Mockingbird i gryfhau rhwydweithiau cefnogi.

Medi 2026

- Agor cartref preswyl tair ystafell wely gyda sefydliad partner.
- Adolygu a gwella opsiynau gofal seibiant.
- Cyflwyno hyfforddiant ar Gynllunio Gofal Gwell.
- Cyflwyno diwrnodau datblygu'r gweithlu rheolaidd.
- Cynnwys y gweithlu mewn newidiadau i system Mosaic.
- Ehangu llwybrau i waith cymdeithasol drwy feithrin ein gweithwyr ein hunain.
- Parhau i recriwtio i leihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth.

Rhagfyr 2026

- Cryfhau gwiriadau a hyfforddiant i weithwyr asiantaeth.

Mawrth 2027

- Gwellu rhannu data gyda phartneriaid iechyd ac addysg.

Mawrth 2030

- Ehangu nifer y cartrefi plant mae'r Cyngor yn eu cynnal i gynyddu opsiynau i leoli'n lleol.

Cryfhau ein Gwasanaeth Ailalluogi i wella capasiti ac effaith

Dros y deuddeng mis diwethaf, mae cynnydd cyson wedi'i wneud ar ehangu'r gwasanaeth ailalluogi, er yr heriau wrth recriwtio gweithwyr gofal cartref. Drwy newid sut mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu ei waith, mae'r tîm wedi gallu cefnogi **12%** yn fwy o bobl gyda'u hanghenion ailalluogi. Mae'r gwelliant hwn wedi cael effaith go iawn, a **125** o unigolion bellach angen llai o ofal o ganlyniad uniongyrchol i'r gefnogaeth maent wedi'i chael.

Mae llawer o bobl wedi rhannu pa mor werthfawr mae'r gwasanaeth wedi bod, ac un person yn dweud eu bod yn "teimlo'n well rŵan nag oeddwn i pan es i i'r ysbyty," ac un arall yn egluro bod "y gwasanaeth wedi fy helpu i i feithrin fy hyder eto ar ôl codwm ac mae hynny wedi fy helpu i i fynd allan i'r gymuned eto".

Er bod y datblygiadau hyn yn galonogol, mae mwy i'w wneud. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod yr angen i gryfhau prosesau casglu data i ddangos canlyniadau'n well, a bydd parhau i wella'r drefn o recriwtio'n hollbwysig er mwyn cynyddu rhagor ar gapasiti ailalluogi a lleihau dibyniaeth hirdymor.



Cydweithio gyda GOGDdC i wella mynediad i ofalwyr

Rydym ni'n parhau i weithio'n agos gyda GOGDdC i sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybodaeth, cyngor, a chefnogaeth amserol. Mae canolfan gofalwyr newydd GOGDdC yn yr Wyddgrug wedi bod yn llwyddiannus iawn ers agor, gyda thua 2,000 o bobl yn cerdded i mewn iddi bob mis. Dros yr haf, cynhaliwyd dros 100 o ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithgareddau wedi'u harwain gan wirfoddolwyr, rhaglen adnewyddu dodrefn, sesiynau cymorth costau byw gyda phartneriaid fel Cyngor ar Bopeth, Cymru Gynnes, Scottish Power Energy Networks, a Hawliau Lles, yn ogystal â dathliadau Wythnos Gofalwyr a digwyddiadau ymgynghori.

Gall gofalwyr fanteisio ar grwpiau cefnogi ei gilydd, sesiynau galw heibio, hyfforddiant, a sesiynau lles sy'n canolbwyntio ar strategaethau ymdopi. Mae partneriaethau cryfion hefyd wedi datblygu gyda thimau Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys Therapi Galwedigaethol a Thaliadau Uniongyrchol, sydd bellach yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd. Mae'r rhain yn caniatáu i ofalwyr ofyn cwestiynau, cael gwybodaeth, a chael eu cyfeirio at y cymorth cywir heb fod angen atgyfeiriad ffurfiol, sy'n ein helpu ni i weithredu'n ataliol. Mae cofnod o 600 yn bresennol mewn digwyddiadau, sy'n gynydd o 240%, ac rydym ni bellach yn cyrraedd llawer o ofalwyr a oedd gynt yn anhysbys.

Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi'r awyrgylch croesawgar, gan gynnwys y man tu allan a ddatblygwyd drwy raglen brentisiaethau Toyota, a'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael. Mae Aelodau Seneddol Lleol a Phrif Weinidog Cymru hefyd wedi ymweld â'r ganolfan, gan ganmol ei heffaith ar y gymuned a'r stryd fawr.

Mae GOGDdC Wedi cryfhau perthnasoedd â busnesau lleol, gan wneud cymorth i ofalwyr yn fwy amlwg, annog atgyfeiriadau, a chreu mwy o gyfleoedd i godi arian a hel cyfraniadau. Canlyniad hyn yw bod y gymuned yn gwybod ble i gyfeirio pobl, a mwy o ymwybyddiaeth am ba gymorth sydd ar gael i ofalwyr yn lleol.

Mae'r lleoliad ar y stryd fawr yn golygu bod y ganolfan yn hygyrch iawn. Gall gofalwyr alw heibio ar adeg sy'n addas iddyn nhw, ac mae swyddog bob amser ar ddyletswydd, sy'n sicrhau bod llawer yn cael y wybodaeth a'r cyngor maent ei angen ar yr un diwrnod.

Dyfyniadau/adborth:

"Mae'r ganolfan newydd yn hyfryd! Rydw i wedi cyfarfod pobl newydd, gwneud ffrindiau a bachu amser i mi fy hun wrth alw draw yno. Braff iawn ydy ei chael hi yma yn yr Wyddgrug!"

"Lle gwych! Am waith da rydych chi wedi'i wneud yn creu lle arbennig ar gyfer gofalwyr."

"Mae hi mor hawdd galw draw o'r gwaith i ofyn cwestiynau a gweld be' sy'n digwydd. Dwi wedi bod i ambell beth ac yn gobeithio mynd i fwy yn y dyfodol. Adnodd gwych iawn i'r dref ei gael."



Gwella ein gwasanaethau drws ffrynt

Ein prif bwyntiau mynediad, yr Un Pwynt Mynediad i oedolion, a gwasanaethau Cyswllt Cyntaf ac Ymyrraeth Gynnar i deuluoedd, yw'r 'drws ffrynt' i gefnogaeth yn Sir y Fflint. Maent yn rhoi un llwybr i unigolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol geisio gwybodaeth, mynegi pryderon, neu ofyn am gymorth. Mae cryfhau'r pwyntiau mynediad hyn yn sicrhau bod ymholiadau'n cael eu trin yn gyson, bod pobl yn cael arweiniad clir o'r cychwyn cyntaf, a bod cymorth cynnar yn cael ei gynnig lle bo modd rhag i bethau waethygu. Mae hyn hefyd yn sicrhau mai ond y rhai sydd angen asesiad llawn sy'n mynd ymlaen i gael gwasanaethau statudol, sy'n creu profiad mwy didrafferth ac effeithlon.

Oedolion

Un Pwynt Mynediad

Mae tîm yr Un Pwynt Mynediad wedi adleoli i Dŷ Dewi Sant, sy'n hwyluso integreiddio â thimau gofal cymdeithasol eraill ac yn hwyluso gweithio'n fwy hyblyg, a hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar les cydweithwyr. Rydym ni'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y trydydd sector, gan gynnwys y tîm presgripsiynu cymdeithasol sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, sy'n defnyddio ei wybodaeth amhrisiadwy am gefnogaeth gymunedol leol i gysylltu pobl â chyfleoedd iddynt fod yn rhan gadarnhaol a gweithredol o gefnogi eu lles a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.

I wella effeithlonrwydd, rydym wedi mapio llifau gwaith yr Un

Pwynt Mynediad ac wedi comisiynu adolygiad allanol i weld ble mae rhwystrau a chyfleoedd i wella. Rydym hefyd yn cefnogi sefydliadau partner i gymryd perchnogaeth o brosesau sydd ddim angen bod o dan y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, galluogi Banc Bwyd Sir y Fflint i aildechrau rhoi talebau bwyd yn uniongyrchol, sy'n golygu na fyddai angen i hynny ddigwydd drwy'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddiangen, a helpu i gael gwared â stigma i rai sy'n ceisio cymorth.

Plant

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae ymyrraeth gynnar yn cychwyn cyn gynted ag mae teulu'n cysylltu â ni. Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn darparu ymateb cyntaf cymesur o fewn dau ddiwrnod gwaith, gan ddefnyddio dull sgysiol i ddeall beth sydd wir yn digwydd ar gyfer y teulu, gan gynnwys unrhyw broblemau dan yr wyneb a chryfderau. Yn achos nifer o deuluoedd, y cyfan maent ei angen yw sicrwydd, arweiniad a gwybodaeth ymarferol yn hytrach nag atgyfeiriad ffurfiol. Trwy ddatrys pryderon yn gynnar, mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu ac yn lleihau atgyfeiriadau diangen i'r Ganolfan Cymorth Cynnar, sy'n gwarchod capasiti ar gyfer teuluoedd sydd angen cefnogaeth fwy dwys. Pan nad yw cyngor cynnar yn ddigon, mae swyddogion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cwblhau asesiadau mwy manwl sy'n bwydo'n uniongyrchol i'r Ganolfan Cymorth Cynnar, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra.

Tîm Cyswllt Cyntaf Plant

Y Tîm Cyswllt Cyntaf Plant yw'r drws ffrynt i wasanaethau plant statudol, gan frysbennu pob atgyfeiriad ac asesu a yw plant mewn perygl o niwed sylweddol neu angen gofal a chymorth. Mae penderfyniad yn cael ei wneud ar bob atgyfeiriad o fewn un diwrnod gwaith, sy'n faes lle mae Sir y Fflint yn aml yn cydymffurfio 100% ag o, fel mae AGC yn adrodd. Mae llinell ffôn benodol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yn rhoi mynediad uniongyrchol at weithwyr cymdeithasol, gan gryfhau ymarfer diogelu a gwella gweithio amlasiantaeth. Mae hyn wedi'i gefnogi ymhellach drwy'r Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth, lle mae asiantaethau'n rhannu gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau ar yr un diwrnod am anghenion diogelwch a chefnogaeth plant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella prosesau, ymarfer ac ymatebolrwydd y drws ffrynt i blant. Amlygodd ymweliad diweddaraf AGC yr ystod eang o gymorth cynnar ac opsiynau ataliol sydd ar gael, gan gynnwys cefnogaeth i blant sydd wedi cael diagnosis neu sy'n cael eu tybio i fod â chyflyrau niwroamrywiol. Fe wnaethant hefyd nodi bod angen gwella sut mae canlyniadau'n cael eu rhannu ag atgyfeirwyr, gan sicrhau adborth amserol pan mae pobl yn adrodd am bryderon.

Gwella mynediad ar-lein at wybodaeth a chymorth

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i adnewyddu adran y Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan Cyngor Sir y Fflint, gyda'r cam cyntaf wedi'i drefnu i lansio yn 2026. Bydd y

diweddariad yn caniatáu i drigolion ddod o hyd i wybodaeth a chynghor clir a chael eu cyfeirio, a fydd yn helpu unigolion i ddeall dewisiadau'n gynharach, gwneud penderfyniadau cytbwys a chyrraedd y gwasanaethau cywir heb oedi.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau digidol ehangach Cyngor Sir y Fflint, sy'n canolbwyntio ar wella profiad cwsmeriaid, gwella hygyrchedd, a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Drwy edrych ar dechnoleg newydd a dylunio safle sy'n hawdd ei ddefnyddio ac sy'n ymateb i wahanol anghenion, rydym yn sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd ag uchelgeisiau trawsnewid digidol ehangach y Cyngor a hefyd yn cefnogi ein hamcanion i hybu annibyniaeth a gwella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.

Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed yn Sir y Fflint

Daeth Sir y Fflint yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd yn 2023. Mae cymuned sy'n gyfeillgar i oed yn creu amgylchedd sy'n galluogi pobl o bob oed i heneiddio'n dda drwy ddarparu cyfleoedd i fod yn iach, heini a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Er mwyn arwain ar waith datblygu cymunedau hygyrch sy'n gyfeillgar i oed yn Sir y Fflint, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflogi Swyddog Ymgysylltu Heneiddio'n Dda, sy'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl hŷn a grwpiau cymunedol ledled y sir. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am

gael gwasanaethau a chefnogi canllaw 'beth sy' 'mlaen' ar gyfer grwpiau a gweithgareddau cymdeithasol. Mae gwaith partneriaeth cryf gyda Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint hefyd yn darparu eiriolaeth i sicrhau bod gan ein holl ddinasyddion hŷn lais a'u bod yn gallu bod yn rhan o fywyd cymunedol. Mae'r Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, yn cefnogi'r gwaith hwn fel y Cefnogwr o Blaid Pobl Hŷn yn Sir y Fflint.

Fel aelod o'r Rhwydwaith Byd-eang a Rhwydweithiau'r DU a Chymru o Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed, rydym ni'n gallu rhannu a manteisio ar syniadau i wneud Sir y Fflint yn lle mwy cynhwysol a chefnogol i'n holl ddinasyddion, beth bynnag fo'u hoedran.

Cymunedau sy'n Deall Dementia yn Sir y Fflint

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gydag [Outside Lives](#) i ymgysylltu â'r holl gymunedau yn Sir y Fflint i wella gwasanaethau, cefnogaeth a gweithgareddau i bobl sy'n byw gyda dementia ac i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddementia. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu Cymunedau sy'n Deall Dementia yn rhan o [Gynllun Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Dementia Gogledd Cymru](#). Mae Cymunedau sy'n Deall Dementia yn cefnogi pobl sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr drwy godi ymwybyddiaeth o ddementia i wella dealltwriaeth pobl a lleihau'r stigma. Maen nhw'n grymuso unigolion sy'n byw â dementia i barhau i fod yn rhan o'u cymuned, gan leihau arwahanrwydd ac unigrwydd.

Blaenoriaethau 2026/27

- Cefnogi perthnasoedd cryf rhwng rhieni a babanod a gwella dealltwriaeth o ddatblygiad ac iechyd meddwl cynnar plant.
- Creu dull cyson i leihau a rheoli rhestrau aros.
- Adolygu a gwella sut mae pobl yn symud yn ddiogel ac yn gyflym o'r ysbyty i gael y gefnogaeth gywir.
- Buddsoddi yn ein harbenigedd mewnol i gefnogi ailalluogi a gwella gartref.
- Cefnogi pobl ifanc i symud o ofal preswyl drud i ofal gyda theulu, gan gynnwys ehangu maethu.
- Byddwn yn edrych ar greu Canolbwynt Teuluoedd i ddod â chefnogaeth ynghyd mewn cymunedau.



Partneriaeth ac integreiddio



Safonau ansawdd

- Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig a chynaliadwy ac o ansawdd uchel i bobl.
- Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at brosesau cynllunio a darparu eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.

Ehangu a chryfhau gwasanaethau gofal preswyl i blant

Mae cynnydd i gynyddu capasiti preswyl mewnol yn parhau ar garlam, gyda chynlluniau i ddatblygu hyd at ddau gartref newydd bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf, yn dibynnu ar anghenion wedi'u hasesu a'r cyllid sydd ar gael.

Mae sawl ffrwd waith eisoes ar y gweill, ac eiddo addas wedi'i ganfod ac yn mynd drwy'r broses brynu ar hyn o bryd. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda Chymdeithas Tai First Choice i sefydlu cartref arbenigol i ddau berson ifanc sydd ag anghenion sylweddol a chymhleth, sy'n helpu i gryfhau darpariaeth arbenigol leol a lleihau dibyniaeth ar leoliadau tu allan i'r sir.

Ynghyd â hyn, mae prosiect adnewyddu gyda Gofal a Thrwsio'n gwneud cynnydd i drawsnewid eiddo arall yn gartref preswyl byrdymor i ddau berson ifanc. Bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi ymateb mewn argyfwng, cyfnodau asesu a chynllunio camu-i-lawr.

Mae cynnydd da'n cael ei wneud gyda Gweithredu dros Blant, a chynlluniau i agor cartref tair ystafell wely yn Sir y Fflint o fewn y flwyddyn nesaf. Mae'r cais am gymorth o'r Gronfa Gyfalaf Tai wedi'i gwblhau, sy'n helpu i symud y prosiect yn ei flaen, ac mae gwaith adeiladu ac addasu ar yr eiddo'n agos at ddod i ben.

Roedd Gweithredu dros Blant yn bwriadu cyflwyno eu cais cofrestru i AGC ym mis Mawrth, gan ddisgwyl penderfyniad ddechrau'r haf. Mae gwaith cynllunio recriwtio hefyd wedi dechrau fel y gall y gwasanaeth agor heb oedi ar ôl cael cymeradwyaeth.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn dangos momentwm cryf a chydweithio effeithiol i ehangu dewisiadau preswyl cynaliadwy, o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y plentyn o fewn yr ardal leol.

Partneriaeth gyda'r Rhaglen Ailgysylltu

Mae'r bartneriaeth gyda'r Rhaglen Ailgysylltu wedi cryfhau gallu Sir y Fflint i leihau lleoliadau preswyl tu allan i'r sir drwy ddatblygu opsiynau teuluol, lleol ar gyfer plant sydd ag anghenion mwy cymhleth. Lansiwyd ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu ym mis Mai 2025 a oedd yn canolbwyntio ar weithwyr proffesiynol o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, yn cydnabod gwerth sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi plant sydd wedi profi trawma. Mae'r dull hwn wedi bod yn effeithiol a bydd y bartneriaeth yn parhau tan fis Mehefin 2026.

Fe wnaeth digwyddiad amlasiantaeth ar y cyd ym mis Tachwedd 2025 gryfhau rhagor ar gydweithio, gan ddangos sut mae'r bartneriaeth yn gwella canlyniadau trwy ymarfer ar y cyd, cyfathrebu mwy eglur a chefnogaeth gydlynol. Mae cynllunio pontio ar gyfer plant yng Ngham 3 yn parhau i wneud cynnydd, gan ganolbwyntio ar barodrwydd ar gyfer gofal teuluol neu, lle bo'n briodol, llwybrau at led annibyniaeth. Hyd yma, mae tri o blant wedi symud yn llwyddiannus, a 13 arall yn mynd trwy Gam 3. Mae cyfarfodydd adolygu a chynllunio rheolaidd bob 4–6 wythnos yn sicrhau bod cynllun pob plentyn yn parhau i fod yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru ar gyfer pobl ag anableddau dysgu: trosolwg Sir y Fflint

Lansiwyd Gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan dimau anableddau dysgu arbenigol, mewn partneriaeth â darparwyr y trydydd sector, a'i ariannu drwy grant ychwanegol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn Sir y Fflint a Wrecsam, gyda Hft yn cefnogi'r ddarpariaeth.

Dim ond 4.8% o bobl ag anableddau dysgu y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt sydd mewn gwaith cyflogedig, er bod diddordeb mawr mewn cyflogaeth. Mae'r Gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth yn creu llwybr mwy clir drwy:

- Sefydlu cyflogaeth â chymorth o fewn gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol
- Darparu cyngor annibynnol, uchelgeisiol ar gyflogaeth
- Cynnig hyfforddiant swydd arbenigol gan ddefnyddio'r model pum cam sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cefnogi cyflogwyr i recriwtio a chadw gweithwyr sydd ag anableddau dysgu

Y nod yw gwella ansawdd bywyd trwy helpu pobl i gael a chadw swyddi addas â thâl.

Dywedodd un ferch o Sir y Fflint a gafodd ei chefnogi i gael gwaith:

“Dwi wedi dysgu fy mod yn gallu llwyddo os ydw i'n dal ati ac mae fy hyder i wedi gwella... dyna'r teimlad gorau erioed. Dw i wrth fy modd yn gwneud be' dwi'n ei wneud.”

Rôl Cydlynnydd Llwybr Cyflogaeth (CLIC)

Mae'r CLIC yn gweithredu fel un pwynt atgyfeirio, gan gryfhau cysylltiadau rhwng timau gweithredu a chymorth cyflogaeth.

Hyd at 31 Mawrth 2026 (Sir y Fflint):

- **52** atgyfeiriad at y CLIC
- **24** atgyfeiriad at wasanaeth cyflogaeth â chymorth Hft
- **74%** o bobl a atgyfeiriwyd erioed wedi bod mewn gwaith cyflogedig
- **60%** erioed wedi chwilio am waith cyflogedig

Mae'r ffigyrau hyn yn amlygu angen sylweddol sydd heb ei ddiwallu, ac effaith y CLIC i wneud cyflogaeth yn opsiwn realistig.

Cynnydd hyd yma: Gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth Hft

- Llwyth achosion agored o 16
- Pedwar o bobl wedi cael gwaith cyflogedig addas
- Tri wedi llwyddo i gael eu canlyniad cyntaf heb dâl, fel lleoliadau gwaith byrdymor fel cerrig camu at waith cyflogedig.
- Data lles a gasglwyd yn dangos gwelliannau cadarnhaol wedi 6 a 12 mis i rai sy'n chwilio am swyddi.

Gwelliant parhaus

Mae'r model yn cynnwys dysgu parhaus trwy gyfarfodydd gweithredol, rhwydwaith rhanbarthol cyflogaeth â chymorth, gweithdai mapio effaith ehangach a gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Ystrad Clud.

Roedd canfyddiadau cynnar yn dangos bod llawer o bobl angen mwy o amser i benderfynu ai gwaith cyflogedig oedd y dewis gorau iddyn nhw. Fel ymateb, mae'r CLIC bellach yn treulio mwy o amser gydag unigolion cyn atgyfeirio, ac mae llwythi achosion hyfforddwyr swyddi wedi'u lleihau i adlewyrchu'r cymorth dwys sydd ei angen.

Mae adborth dinasyddion yn cefnogi'r dull hwn:

“*Mae pobl angen amser i feddwl a dod i arfer efo meddwl beth maen nhw eisiau. Mae'n bwysig cymryd ein hamser.*”

(Adroddiad hawdd ei ddarllen Gwerthusiad Interim Blwyddyn 1).

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos dull partneriaeth y gwasanaeth, a phwysigrwydd swydd addas a chefnogaeth a datblygiad gyrfa hirdymor yn y gwaith, trwy fodel pum cam cyflogaeth â chymorth i lwyddo.

Astudiaeth achos

Atgyfeiriwyd dyn ifanc at y CLIC ar ôl adolygiad gyda'i weithiwr cymdeithasol. Er ei fod yn byw mewn llefydd â chymorth, dewisodd gyfarfod gartref gyda'i rieni a Rheolwr y Tŷ. Gyda'i gylch cefnogaeth, dysgodd y CLIC ei fod eisoes yn cael ei gefnogi gan Hft, a gyda'i ganiatâd o, pontiodd i'r gwasanaeth cyflogaeth â chymorth i gael cymorth mwy penodol i ddod o hyd i waith cyflogedig.

“

“Pan wnes i gyfarfod fy hyfforddwr swydd y tro cyntaf, fe fuom ni'n trafod beth roedd i wedi'i wneud a beth hoffwn i ei wneud nesaf. Roeddwn i eisiau bod yn borthor mewn ysbyty.” Yn fuan wedyn, dealodd fod y rhan fwyaf o swyddi porthor mewn ysbyty'n gofyn am drwydded yrru. “Fe sylweddolais i nad ydy dysgu gyrru'n rhywbeth alla' i ei wneud ar hyn o bryd... fe wnaeth fy helpu i ddeall fy opsiynau.”

”

Wrth edrych ar opsiynau eraill, gwelodd fod swyddi porthor cegin yn ddewis da. Daeth o hyd i swydd wag mewn cartref gofal lleol, ond roedd angen Tystysgrif Hylendid Bwyd Lefel 2. Fe wnaeth ei hyfforddwr swyddi ei gefnogi a threfnu iddo gwblhau'r cwrs. Fe gysylltodd â'r cyflogwr hefyd, i sôn am ei sgiliau, ei frwdfrydedd a'i addasrwydd a gwneud addasiadau rhesymol. “Bu fy hyfforddwr swyddi'n fy helpu i baratoi at y cyfweiliad, sut i gyfathrebu'n glir ac mewn ffordd briodol, sut i 'nghyflwyno fy hun, ac roedd gyda mi yn y cyfweiliad... yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, cefais alwad ffôn yn cynnig y swydd i mi. Roedd o'n deimlad anhygoel.”

Parhau a wnaeth y gefnogaeth wrth iddo setlo yn y rôl. “Fe wnaeth fy hyfforddwr swyddi fy helpu i dorri'r swydd yn gamau llai pan oedd yn teimlo'n ormod. Mae fy hyder wedi datblygu cymaint.” Yn ôl ei gyflogwr: “Rydyn ni wir yn gwerthfawrogi (yr unigolyn ifanc) am ei gyfraniad yn ein cwmni – mae'n gymeriad hwyliog, cadarnhaol ac yn barod i fynd yr ail filltir bob tro, ac mae ei barodrwydd i weithio'n amlwg. Mae gweithio gyda darparwr cyflogaeth â chymorth wedi bod yn broses hawdd, ac nid yw'n gostus. Mae'r gefnogaeth arbenigol wedi ein helpu ni a fo.”

Dyma fwy o sylwadau gan yr unigolyn ifanc: “Mae cael rhywun i wrando ac sy'n onest am yr hyn sy'n iawn i mi wedi newid popeth. Dwi'n falch o'r gwaith rydw i'n ei wneud rŵan yn cadw'r gegin yn lân a thaclus, siarad efo'r preswylwyr, a gwneud iddyn nhw wenu gyda fy mhersonoliaeth. Mae hynny'n fy ngwneud i'n hapus iawn.” Mae o a'i hyfforddwr yn parhau i chwilio am swydd porthor ysbyty lle nad oes angen trwydded yrru.

Canolbwynt Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Integredig Coed y Ddraig

Cafodd Coed y Ddraig, canolbwynt cymunedol pwrpasol newydd i oedolion sydd ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion iechyd meddwl, ei gwblhau a'i drosglwyddo i Gyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2026.

Mae'r cyfleuster yn yr Wyddgrug yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer y prosiect gwerth miliynau o bunnoedd i drawsnewid cymorth dydd a chyfleoedd gwaith yn Sir y Fflint. Bydd y cyfleuster newydd yn dod â gwasanaethau presennol ynghyd ac yn darparu lle ar gyfer rhai newydd. Bydd Hft yn rheoli gweithrediadau dydd i ddydd, gyda gwasanaethau o Tri Ffordd yn Bretton yn symud ddechrau 2026, ac mae cynlluniau'r canolbwynt i'r dyfodol i gynnwys datblygu gwasanaeth cefnogaeth awtistiaeth newydd.

Bydd BIPBC hefyd yn defnyddio lle penodol o fewn yr adeilad i barhau i ddarparu Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, ac ymyraethau clinigol eraill, gyda lle i ehangu yn ôl yr angen.

Mae'r datblygiad, a gwblhawyd gan MPH Construction, wedi bod yn bosib' diolch i gyllid cyfalaf o £2.7 miliwn gan Gyngor Sir y Fflint a £2.9 miliwn o Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Wrth drosglwyddo'r datblygiad, dyma sylwadau budd-ddeiliaid a phartneriaid:

Dywedodd y Cyngorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles: "Mae'r broses drosglwyddo sydd ar fin digwydd gyda chyfleuster Coed y Ddraig yn garreg filltir fawr yn y prosiect pwysig hwn, sy'n fuddsoddiad sylweddol yn nyfodol gwasanaethau cymorth yn Sir y Fflint. Bydd y cyfleuster pwrpasol yma'n caniatáu i ni ddod â gwasanaethau ynghyd o dan un to, ehangu capasiti, a darparu cymorth o safon uchel i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion iechyd meddwl."

Dywedodd Clair Johnson, Rheolwr Cyfleoedd Dydd yn Hft: "Rydyn ni'n falch iawn o redeg Coed y Ddraig mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint a BIPBC. Mae'r canolbwynt cymunedol pwrpasol hwn yn gam mawr ymlaen i ddarparu cyfleoedd o safon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Hft. Trwy ddod â gwasanaethau ynghyd mewn un lle modern a chynhwysol, bydd Coed y Ddraig yn cynnig mwy o ddewis ac yn parhau i rymuso pobl i feithrin sgiliau, hyder ac annibyniaeth yn eu cymuned leol. Gan weithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedol eraill, rydym yn gobeithio darparu adnodd cymunedol gwerthfawr."

Dywedodd Nesta McCluskey, Cyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymunedol Iechyd Integredig y Dwyrain BIPBC: "Rydym yn falch iawn o fod yn bartner Cyngor Sir y Fflint yn natblygiad Coed y Ddraig. Bydd y gofod pwrpasol hwn yn

“

caniatáu mwy o waith ar y cyd, gydag ystod o therapiâu ar gael i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae Coed y Ddraig yn enghraifft ardderchog arall o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i weithio mewn partneriaeth, i ddarparu gwasanaethau modern sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at symud i'r adeilad newydd a chroesawu ein defnyddwyr gwasanaeth cyntaf i elwa ohono.”

Dywedodd Rhys Edwards, Rheolwr Masnachol MPH Construction: “Fel contractwr yn Sir y Fflint, rydyn ni'n falch iawn o fod wedi cwblhau Coed y Ddraig ar gyfer y gymuned leol. Gan weithio'n agos gyda Chyngor Sir y Fflint a'n partneriaid prosiect lleol, mae hwn wedi bod yn brosiect cydweithredol go iawn o'r dechrau i'r diwedd, yn seiliedig ar dargedau cyffredin a pherthynas gref. Mae'n rhoi boddhad mawr i ni rŵan drosglwyddo cyfleuster pwrpasol o safon sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned a bydd yn darparu manteision hirdymor, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol, go iawn i fywydau pobl am flynyddoedd i ddod.”

Dywedodd Sarah Murphy, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: “Mae'n wych bod datblygiad Coed y Ddraig ar fin cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir y Fflint. Bydd pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion iechyd meddwl yn gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth, therapiâu ac ymyraethau clinigol yn y ganolfan bwrpasol hon. Mae'r prosiect yn enghraifft wych o'r hyn mae modd ei gyflawni pan mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd. Rwyf yn falch iawn bod ein buddsoddiad o £2.9 miliwn wedi helpu i sicrhau'r modelau gofal integredig, newydd ar gyfer Sir y Fflint, sy'n flaenoriaeth i ni ar draws Cymru.”

”

Tŷ Croes Atti: darparu gofal preswyl ac ailalluogi mewnol o ansawdd uchel

Agorodd Tŷ Croes Atti ei ddrysau ym mis Tachwedd 2025, gan nodi carreg filltir bwysig i ofal cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae'r cyfleuster newydd bellach yn darparu cefnogaeth i 56 o bobl hŷn, gan gynnig amgylchedd modern, croesawgar sy'n adlewyrchu buddsoddiad mawr mewn gwasanaethau gofal lleol o safon. Mae'r adeilad ei hun yn arwydd o wireddu gweledigaeth uchelgeisiol, ac mae wedi'i ddylunio i sicrhau y gall pobl hŷn a rhai sydd angen cefnogaeth gael y gofal cywir yn nes at adref.

Mae'r cartref yn cynnig gofal preswyl cyffredinol a chefnogaeth arbenigol i bobl sy'n colli eu cof neu'n byw â dementia. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i gefnogi 12 o unigolion sydd angen cymorth ailalluogi byrdymor ar y llwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA), i helpu pobl i adennill eu hannibyniaeth ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Ers agor, mae Tŷ Croes Atti wedi dechrau llenwi'n gyflym, gyda phreswylwyr yn symud o hen safle Croes Atti a phreswylwyr newydd sydd wedi ymuno dros fisoedd y gaeaf. Mae'r ymateb wedi bod yn hynod, hynod gadarnhaol. "Feddyliais i erioed y byddwn i'n byw mewn lle mor anhygoel â hwn," meddai un preswilydd, a dywedodd un arall, "Mae'r lle'n hyfryd, ac mae o'n dangos bod pobl yn malio amdanom ni." Mae'r argraffiadau cynnar yma'n amlygu faint mae'r lle newydd yn ei olygu i bobl sy'n ei alw'n gartref.

Gan adeiladu ar ein henw da iawn, mae Tŷ Croes Atti bellach yn elwa o bartneriaeth ehangach â BIPBC. Mae'r cydweithio nes yma eisoes yn gwella canlyniadau i drigolion, a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth gydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau bob dydd.



“

Dyweddodd y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: “Mae’r cartref gofal newydd hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gofal a chefnogaeth rhagorol yn Sir y Fflint. Rydyn ni’n falch o gynnig lle cynnes a chroesawgar lle gall preswylwyr deimlo’n gartrefol a diogel, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.”

Dyweddodd Dawn Bowden, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

“Mae’r prosiect yn enghraifft wych o’r hyn mae modd ei gyflawni pan fydd sefydliadau’n cydweithio, a braf iawn yw gweld bod y cyllid gennym wedi sicrhau i Sir y Fflint y math o gapasiti cymunedol sydd ei angen arnom ar gyfer y modelau gofal integredig newydd rydym yn eu blaenoriaethu ar draws Cymru.”

Dyweddodd Prif Swyddog Gweithredu BIPBC, Tehmeena Ajmal:

“Rydym yn falch o fod yn bartneriaid gyda Chyngor Sir y Fflint, Llywodraeth Cymru a Willmott Dixon yn y datblygiad pwysig hwn. Mae’n pwysleisio ein hymrwymiad i’n cymunedau a chydweithio i ddarparu’r gofal priodol sydd ei angen arnynt. Mae Tŷ Croes Atti yn gam hanfodol arall ar y daith at ddarparu’r gofal cywir yn y lleoedd cywir, ar yr adeg gywir, i bobl Gogledd Cymru.”

”

Model Aseswyr Dibynadwy: peilot a'r sefyllfa bresennol

Mae'r model Aseswyr Dibynadwy wedi'i fwriadu i symleiddio prosesau asesu a rhyddhau o ysbytai trwy ganiatáu i ymarferwyr hyfforddedig gynnal asesiadau penodol a fyddai fel arfer yn gofyn am weithiwr cymdeithasol neu therapydd galwedigaethol. Y nod yw lleihau dyblygu, cyflymu penderfyniadau, a chefnogi pobl i adael yr ysbyty'n ddiogel a heb oedi diangen. Yng Nghymru, mae arweiniad cenedlaethol ar ddatblygu'r dull hwn, a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn creu fframwaith i'w weithredu'n gyson yn rhanbarthol.

Yn rhan o'n gwaith gwella lleol, bu i ni gyflwyno model peilot mewn partneriaeth ag un o'n safleoedd ysbyty aciwt. Roedd hyn yn dilyn datblygu cytundeb sefydliadol a eglurai rolau, cyfrifoldebau, a chwmpas y model. Er bod y peilot wedi'i weithredu, byddwn yn edrych am gyfleoedd dros y flwyddyn nesaf i wneud y mwyaf o unrhyw fanteision sydd ar gael drwy'r dull hwn.

Mae'n werth nodi ein bod hefyd wedi cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty yn yr un cyfnod hefyd. Mae'r adnodd ychwanegol hwn wedi dylanwadu ar lif asesiadau a gallai fod wedi lleihau'r cyfle i'r model Aseswyr Dibynadwy ddangos ei fanteision posib'. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i fonitro sut mae mwy o bresenoldeb gwaith cymdeithasol yn effeithio ar oedi o ran asesiadau a pherfformiad cyffredinol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Pan fydd y darlun yn fwy eglur, byddwn yn edrych eto ar werth y model Aseswyr Dibynadwy a'i rôl yn y dyfodol yn ein cyd-destun lleol ni.

Mae'r dull synhwyrol yma'n sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ar ei gyflwyno'n ehangach yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cyd-fynd â chyfarwyddyd cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar wella profiad pobl o fynd adref o'r ysbyty.

Cynyddu capasiti asesu i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty

Gyda chefnogaeth Grant ar gyfer Oedi yn Achos Llwybrau Gofal gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi gallu cynyddu capasiti ein gweithlu'n sylweddol i gefnogi asesiadau yn yr ysbyty i gynorthwyo rhyddhau cleifion. Mae'r galw am gefnogaeth i ryddhau pobl o'r ysbyty'n parhau i fod yn faes heriol, gan fod angen gwneud hynny o sawl ysbyty'n ddiogel a heb oedi. Mae'r capasiti asesu ychwanegol, ynghyd â rhagor o gapasiti sydd wedi'i greu mewn timau ehangach sy'n cefnogi'r broses o ryddhau cleifion, yn ddatblygiad pwysig i gefnogi pobl i ddychwelyd adref ar ôl cyfnod o salwch.

Meicro-ofal

Mae'r Prosiect Meicro-ofal wedi parhau i ddatblygu'n dda, gyda 23 o fusnesau newydd wedi'u sefydlu eleni i gefnogi gofal personol a lles ledled Sir y Fflint. Bellach, mae 83 Meicro-ofalwr ar waith, ac 20 arall yn mynd drwy'r broses sefydlu. Ynghyd, maent yn galluogi cefnogi hyd at 400 o bobl â gofal wedi'i bersonoli, gan ddarparu gwasanaethau sy'n amrywio o ofal personol a chefnogaeth dydd dementia i gymorth i deuluoedd, gweithgareddau lles, byw â chymorth, atgoffa am wahanol bethau dyddiol, a gwasanaethau argyfwng.

Rydym ni hefyd yn gweld twf organig mewn clystyrau bach o grwpiau Meicro-ofal mewn ardaloedd gwledig, sy'n darparu ar gyfer rhai o'r pobl mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau. Mae Meicro-ofalwyr yn cydweithio mwyfwy i ehangu eu cyrhaeddiad a darparu cefnogaeth fwy cyson.

Mae dwy fenter Meicro-ofal bellach yn darparu gwasanaethau dydd bum diwrnod yr wythnos i bobl rhwng camau cynnar a chanol dementia. Drwy'r gwasanaethau hyn, ceir cyfleoedd cymdeithasu cymunedol pwysig, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn grwpiau canu a dawnsio lleol, a chiniawau a diwrnodau allan arbennig yn rheolaidd. Mae'r ddau wasanaeth yn parhau i ffynnu ac maent wedi cynyddu nifer y pecynnau gofal sydd wedi'u comisiynu.

Mae cyfleoedd newydd yn datblygu i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae dulliau creadigol sydd wedi'u comisiynu'n galluogi cefnogaeth wedi'i theilwra i unigolion trwy grwpiau clwstwr bach, sy'n sicrhau parhad a chysondeb gofal. Un enghraifft ddiweddar yw dyn ifanc ag ADHD ac awtistiaeth sydd angen cefnogaeth bwrpasol. Mae'r model hwn yn caniatáu i'w deulu gael seibiant wrth ei helpu o i gyflawni'r amcanion sydd bwysicaf iddo.

Mae Meicro-ofal hyblyg, cymunedol yn parhau i lenwi bylchau lle mae gwasanaethau traddodiadol yn cael trafferth, gan gynnwys helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty heb oedi trwy ofalwyr lleol, cyson. Mae'n cryfhau'r gweithlu trwy gyfleoedd

hyblyg ac yn darparu mwy o ddewis, cydweithio, a gofal cost-effeithiol mewn ardaloedd gwledig ac anodd eu cyrraedd.

Bu cynnydd yn nifer y Meicro-ofalwyr sy'n cwblhau'r Fframwaith Ansawdd ac yn contractio gyda'r Cyngor hefyd, gyda 18 o ddarparwyr cymeradwy bellach yn darparu gofal wedi'i gomisiynu. Yn un achos, fe wnaeth un Meicro-ofalwr hyfforddiant penodol i ddiwallu anghenion arbenigol unigolyn – cefnogaeth na allai gwasanaeth traddodiadol ei darparu, a ganiataodd i'r unigolyn aros gartref gyda gofal wedi'i bersonoli.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae disgwyl i Feicro-ofal chwarae rhan fwyfwy pwysig yn y darlun gofal, gan gynnig cefnogaeth hyblyg ar sail perthnasoedd sy'n ategu gwasanaethau traddodiadol ac yn helpu i leddfu pwysau ar y gweithlu.

I gael mwy o wybodaeth am Feicro-ofal, cliciwch [yma](#).

Diweddariad ar Gynnydd i Ddarparwyr

Mae Cynnydd i Ddarparwyr yn rhaglen achredu sydd wedi'i chreu i gefnogi gwasanaethau gofal preswyl, cartref a gofal ychwanegol yn Sir y Fflint i ddarparu gofal ar gyfer yr unigolyn. Trwy ddefnyddio adnoddau ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r rhaglen yn helpu timau i ailystyried sut maent yn cefnogi pobl, cryfhau perthnasoedd â theuluoedd,

a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bob unigolyn. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo datblygiad y gweithlu a hefyd yn cynyddu dewis a rheolaeth i bobl sy'n cael gofal a chymorth.

Hyd yn hyn, mae 24 darparwr wedi sefydlu'r arferion hyn yn eu darpariaeth gwasanaeth ac wedi llwyddo i ennill achrediad, a 10 wedi ennill Aur, 9 Arian, a 5 Efydd. Mae diddordeb yn y rhaglen yn parhau i gynyddu, a sawl darparwr wrthi'n gweithio at ennill achrediad a thri darparwr newydd yn ddiweddar wedi mynegi eu bwriad i ddechrau'r daith. Mae darparwyr hefyd yn dangos brwdfrydedd go iawn i integreiddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eu systemau electronig, ac rydym yn gweld enghreifftiau da o waith ystyrlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn datblygu ar draws gwasanaethau.

'Sbotolau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig yng Nghymru'

Mae Llais Cymru wedi casglu llawer o adborth gan drigolion ledled Cymru i ddeall y cryfderau a'r heriau o gael gofal iechyd a gofal cymdeithasol i ddinasyddion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r adroddiad, 'Sbotolau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig yng Nghymru' yn amlygu'r pwysau sy'n wynebu cymunedau gwledig, gan alw am newid go iawn i wneud gwasanaethau'n decach ac yn haws eu cael. Dros y 12 mis nesaf, bydd Sir y Fflint yn datblygu gwaith sy'n

ymateb yn uniongyrchol i'r canfyddiadau hyn.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd ar sawl un o'r heriau sydd yn adroddiad Llais Cymru ac rydym yn dal i ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r ymarfer gorau ledled Cymru. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol i rannu gwersi ac ystyried dulliau newydd, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod lleisiau pobl mewn ardaloedd gwledig yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau integredig.

Mae'r trydydd sector yn dal i fod yn bartner allweddol i ddarparu cefnogaeth leol, ac rydym yn parhau i ddadlau o blaid cyllid hirdymor, cynaliadwy i helpu'r sefydliadau hyn i gynllunio a darparu gwasanaethau'n hyderus. Rydym yn ymroi i gynnal partneriaethau cryf ar draws sectorau fel y gallwn ni gryfhau gwasanaethau gyda'n gilydd a gwella profiad preswylwyr yn ein holl gymunedau gwledig.

Mae ein gwaith yn cynnwys cyfrannu at ddatblygu model System Gofal Cymunedol Integredig a chymryd rhan yn y rhaglen ddigidol genedlaethol, Gofal Cysylltiedig, sy'n ceisio gwella sut mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Adeiladu gwell dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau mewn cymunedau gwledig.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd, gofal a'r sector gwirfoddol i edrych ar ddatrysiadau ymarferol.
- Datblygu cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r materion a godwyd yn adroddiad Llais Cymru, gan gynnwys heriau ynghlwm â chynhwysiant digidol a'r gweithlu.
- Cryfhau gwasanaethau lleol, cymunedol lle bo modd.
- Gwella gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu fel bod preswylwyr yn gallu parhau i fod yn rhan o gynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

Mae'r gwaith hwn yn nodi dechrau ymrwymiad mwy hirdymor i wella iechyd a gofal gwledig. Fel awdurdod, rydym yn ymroi i wrando, dysgu a chyflwyno newidiadau sy'n adlewyrchu bywyd gwledig fel y mae go iawn.

Sefydlu sero net mewn ymarfer comisiynu

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gyrraedd statws carbon sero net erbyn 2030, yn unol â'i Strategaeth Newid Hinsawdd ei hun a'r gofyn gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn niwtral o ran carbon erbyn yr un dyddiad. Mae'r ymrwymiad hwn bellach yn flaenoriaeth gorfforaethol greiddiol sy'n dylanwadu ar y ffordd mae'r sefydliad yn cynllunio, yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli ei gyfrifoldebau ar draws pob adran.

Yn rhan o'r gwaith hwn, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn integreiddio ystyriaethau carbon sero net yn uniongyrchol yn eu gwaith comisiynu. Bydd yr holl brosesau caffael o fewn y gwasanaeth yn cynnwys gofynion corfforaethol y Cyngor i leihau allyriadau carbon, i sicrhau bod gwasanaethau a darparwyr a gomisiynir yn cyfrannu at y nod sefydliadol ehangach i gyrraedd statws sero net. Mae'r dull hwn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng amcanion hinsawdd a phenderfyniadau comisiynu, gan wreiddio cynaliadwyedd mewn ymarfer bob dydd a chefnogi proses bontio hirdymor y Cyngor i ddyfodol carbon sero net.

Yn ystod 2025/26, mae dau gyfleuster newydd wedi agor sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Mae Cartref Gofal Tŷ Croes Atti yn y Fflint wedi'i ddylunio fel adeilad carbon sero net, a Choed y Ddraig yn yr Wyddgrug wedi'i ddatblygu â chynaliadwyedd yn ganolog iddo i gyrraedd statws carbon sero net wrth weithredu (NZCiO). Mae'r cyfleusterau hyn yn dangos sut all datblygiadau newydd arwain y ffordd i leihau allyriadau wrth ddarparu gwasanaethau o safon i breswylwyr.

Am fwy o wybodaeth am newid hinsawdd a lleihau ein hól-troed carbon, cliciwch [yma](#).

Datblygu prisio teg drwy CareCubed

Mae CareCubed yn adnodd cyfrifo costau digidol sy'n cefnogi Cyngorau a darparwyr i osod prisiau teg a thryloyw yn seiliedig ar anghenion ar gyfer gofal arbenigol. Mae ei fethodoleg strwythuredig yn cyd-fynd â Safon 7: Deall costau gofal, a Safon 8: Pennu ffioedd teg a chynaliadwy o fewn Cod Ymarfer y Safonau Comisiynu Cenedlaethol, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod ffioedd yn gyson, bod modd eu cyfiawnhau a'u bod yn gymesur ag anghenion unigolion.

Mae'r system bellach yn gwbl weithredol ac yn cael ei defnyddio ar gyfer lleoliadau arbenigol oedolion a phlant i ddatblygu prisiau teg am ofal. Ynghyd â'i gyflwyno'n lleol, mae gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud ledled Gogledd Cymru i gytuno ar gynnydd blynyddol cyson yn unol â chwyddiant ar gyfer lleoliadau arbenigol. Mae defnyddio methodoleg CareCubed fel fframwaith cyffredin yn sicrhau bod pob cynnydd felly'n deg, yn rhesymegol, ac yn cyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol am brisio teg.

Darogan galw ar gyfer cynllunio gwasanaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei data ar boblogaeth ac amcanestyniadau yn dilyn Cyfrifiad 2021, gan roi llinell sylfaen newydd i ddeall newid demograffig. Wrth adeiladu ar hyn, mae modelau darogan yn cael eu datblygu i amcangyfrif y galw yn y dyfodol am wasanaethau, yn cynnwys lleoliadau gofal preswyl a nyrsio tan 2034. Bydd y modelau hyn yn arwain datblygiad gwasanaethau, siapia darpariaeth fewnol, a chryfhau penderfyniadau comisiynu trwy allu gweld pwysau sy'n datblygu yn gynharach. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi Safon 3: Defnyddio data i gyflawni canlyniadau o fewn Cod Ymarfer y Safonau Comisiynu Cenedlaethol yn uniongyrchol trwy droi dystiolaeth ddemograffig gadarn yn wybodaeth i weithredu arni, gan alluogi defnyddio adnoddau'n fwy penodol, cynllunio'n rhagweithiol a chael gwell canlyniadau i bobl sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer

Mae'r Cod yn nodi'r saith egwyddor a'r ddeg safon sy'n egluro sut mae'n rhaid comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Cod yn rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a daeth i rym yn 2024. Mae'n darparu dull cenedlaethol gyson i gomisiynu fel bod unigolion sy'n cael gofal yn cael cymorth o safon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau, a hynny ar draws Cymru.

Mae'r ddeg safon i gomisiynu gofal a chymorth wedi'u bwriadu i alluogi cydbwysedd i ofal a chymorth, drwy symud arferion comisiynu:

- a) Oddi wrth gymhlethdod (prosesau). Tuag at symleiddio.
- b) Oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.
- c) Oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.
- d) Oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.
- e) Oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at weithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol.

Y saith egwyddor i gomisiynu'n gyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol yw:

1. Mae perthnasoedd yn bwysig - Daw perthnasoedd

gofalgar, tosturiol a theg o gydgyhyrchu cynhwysol, rhwng darparwyr gofal a chymorth, dinasyddion, comisiynwyr, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cymorth a chyrff cynrychioliadol fel y bo'n briodol.

2. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn onest - Mae arweinwyr a chomisiynwyr i fod yn atebol am greu diwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai arweinwyr geisio gwella a datblygu'n barhaus y systemau dysgu digidol, technolegol a dynol sydd eu hangen i gasglu, rhannu a deall dystiolaeth.

3. Cydweithio: rhannu risgiau, adnoddau ac asedau - Rhaid i arweinwyr a chomisiynwyr feithrin cyd-ddealltwriaeth o risg, ac o alluogi unigolion mewn ffordd gadarnhaol drwy eu caniatáu i gymryd risgiau, gan gynnwys cymunedau a'r holl asedau sydd ar gael.

4. Gwerth yw "yr hyn sy'n bwysig" - Mae gwerth yn fwy na chost; mae'n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy'n sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol.

5. Mae gofal a chymorth cynaliadwy yn seiliedig ar waith teg a phrisiau teg - Rhaid i arferion comisiynu helpu cyflogwyr i wella statws, llesiant ac amodau gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cynllunio ar gyfer yr angen presennol a chenedlaethau'r dyfodol - Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio'n gofyn am lunio rhagolygon, a dylai'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal a chynaliadwyedd.

7. Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy straeon a rhifau - Dylai comisiynwyr gasglu tystiolaeth gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac sy'n eu helpu i gael bywyd da, ac yna defnyddio hyn i lywio canlyniadau gwasanaeth.

Fel y gwelir mewn sawl enghraifft yn yr adroddiad hwn, mae gwaith comisiynu Sir y Fflint yn adlewyrchu'r fframwaith cenedlaethol ac egwyddorion ehangach y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae arferion comisiynu Sir y Fflint wedi'u gwreiddio mewn perthnasoedd cryfion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel sydd i'w weld mewn rhaglenni fel Cynnydd i Ddarparwyr, sy'n pwysleisio deall 'beth sy'n bwysig' i unigolion a chefnogi gweithwyr gofal i greu cysylltiadau trugarog, cyson. Mae arweinwyr yn ategu hyn trwy fod yn agored, o blaid tystiolaeth ac yn canolbwyntio ar wella, gyda strategaethau ac ymatebion archwilio'n cael eu cyhoeddi'n dryloyw a'u siapio trwy ymgysylltu â darparwyr, partneriaid a chyrrff craffu.

Un nodwedd sy'n diffinio model Sir y Fflint yw cydweithio.

Rydym ni'n gweithio gyda chartrefi gofal, darparwyr gofal cartref, partneriaid ieuchyd a chymunedau i rannu gwersi, risgiau ac adnoddau, gan gyd ddatblygu offerynnau a modelau ymarfer yn hytrach na'u gosod a'u gorfodi. Mae'r ethos cydweithredol hwn yn cefnogi canolbwyntio ar werth wrth gomisiynu, lle mae penderfyniadau'n cael eu llywio gan ganlyniadau bywyd a lles unigolion, yn hytrach na chost yn unig. Mae gwaith prisio teg, dadansoddi sefydlogrwydd y farchnad a strategaethau comisiynu sy'n cydnabod pwysigrwydd gweithlu sydd wedi'i gefnogi'n cryfhau cynaliadwyedd. Mae'r strategaethau hyn hefyd yn brawf o gynllunio hirdymor, gan ddefnyddio data demograffig a modelu galw yn y dyfodol, i siapio gwasanaethau ar gyfer pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ar yr un pryd, mae buddsoddiad Sir y Fflint yn system CareCubed yn dangos ein hymrwymiad i broses agored, tryloyw, a theg i osod ffioedd.

Mae Sir y Fflint yn cyfuno tystiolaeth ansoddol a meintiol i ddeall beth sy'n gweithio yn gyson. Mae straeon gan breswylwyr, teuluoedd a chydweithwyr yn cael eu defnyddio gyda data perfformiad, canlyniadau achredu ac arfarniadau allanol, sy'n creu darlun cyflawn o'r effaith. Mae'r cyfuniad o ymarfer perthynol, arweinyddiaeth dryloyw, cyfrifoldeb ar y cyd, comisiynu ar gyfer canlyniadau, siapio'r farchnad yn deg a chynaliadwy, cynllunio hirdymor a thystiolaeth gytbwys yn dangos sut mae ein dull comisiynu'n cyd-fynd yn agos â'r egwyddorion cenedlaethol sydd eisoes yn rhan greiddiol o ymarfer dydd i ddydd.

Blaenoriaethau 2026/27

- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Fframwaith Cymorth clir, gan sicrhau cyd-ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer gwasanaethau.
- Cytuno ar gynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau mewnol, wedi'i ategu gan fodel sydd â'i gostau wedi'u cyfrifo.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr gofal plant i'w cefnogi i symud at fodelau nid-er-elw mewn gofal preswyl a maeth.
- Byddwn yn cryfhau sut rydym yn casglu ac yn gweithredu ar adborth gan bobl a chymunedau.





Safonau ansawdd

- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.
- Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol gyhyd â phosib'.



Gweithredu Model Ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol a Lansio Offeryn Proffil Graddio Esgeulustod (GCP2) yr NSPCC

Prif egwyddor y model ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol (APE) yw gweithio gyda theuluoedd sydd ar y gofrestr amddiffyn plant i greu newid parhaol. Mae gwaith i weithredu'r model APE yn mynd rhagddo'n dda yn dilyn penodi arweinydd APE, gan ganolbwyntio ar wneud Cyfathrebu Cydweithredol yn sylfaen i'r model APE. Mae Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer Cyfathrebu Cydweithredol wedi'i gwblhau, a hyfforddiant mewnol wedi'i drefnu at fis Mawrth ac Ebrill 2026. Mae grwpiau myfyriol i ddechrau o fis Mawrth 2026, a phrosiect peilot yn cael ei gynnal yn y Tîm Ymyriadau Teuluol. Bydd rheolwyr hefyd yn cael hyfforddiant ar Oruchwyliaeth Fyfyriol a Chyfathrebu Cydweithredol dros y misoedd nesaf i sefydlu'r arferion yn ehangach.

Trefnwyd sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer APE a RISG 2 ar ddyddiadau ym mis Chwefror 2026. Yn dilyn hyn, bydd grŵp tasg a gorffen yn adolygu'r ffurflenni cyn i hyfforddiant i'r gweithlu ddechrau yn haf 2026. Y bwriad yw cyflwyno APE o fis Medi 2026 ar ôl cytuno ar y fframwaith a'r prosesau. Bydd gwaith ymgynghori

ag asiantaethau partner i ddilyn hynny, a bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy'r rhaglen Cynadleddau a Grwpiau Craidd bresennol, yn cynnwys Cyfathrebu Cydweithredol ac APE.

I fesur cynnydd a'r effaith ar deuluoedd, bydd archwiliadau ar thema a mapio'r effaith ehangach yn cael eu defnyddio pan fydd APE wedi'i sefydlu'n llwyr. Bydd yr arweinydd APE hefyd yn mynd i Gynadleddau a Grwpiau Craidd i arsylwi ymarfer, dysgu o'r broses weithredu a dod o hyd i unrhyw themâu neu feysydd lle mae angen rhagor o gefnogaeth.

Pan fydd y ffurflenni wedi'u hadolygu ar gyfer APE a'r hyfforddiant wedi cychwyn, bydd y gwaith o gyflwyno Proffil Gofal Graddedig 2 (GCP2) yn cyflymu. Mae GCP2 yn offeryn i gefnogi teuluoedd i newid er mwyn lleihau esgeulustod o blant, ei reoli'n ddiogel a'i atal. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r NSPCC ac Uwch Reolwyr i fwrw ymlaen â hyn, yn ogystal â thrafodaethau mewnol i drefnu e-ddysgu i gydweithwyr a chynnwys yr offeryn o fewn y system newydd ar gyfer gwybodaeth cleientiaid.

Hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd mewn llety byw â chymorth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau byw â chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu wir yn darparu ar gyfer anghenion unigolion. Bellach, mae pob tî byw â chymorth wedi'i adolygu er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth sy'n cael ei darparu'n addas a bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae'r un broses adolygu hefyd yn cael ei chynnal ar gyfer pobl sy'n cael eu cefnogi gan BIPBC drwy eu Huwch-wasanaeth Ailsefydlu Cymunedol, lle bydd rhagor o waith yn cael ei wneud.

Mae'r rhaglen hon wedi canolbwyntio ar ddeall anghenion pob unigolyn yn fanwl a sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei theilwra ar eu cyfer, gyda phwyslais cryf ar annog annibyniaeth trwy'r model cynnydd a defnyddio dulliau rheoli risg yn gadarnhaol. Trwy ddarparu cefnogaeth sy'n fwy addas i anghenion unigolion, rydym wedi lleihau ymarferion diangen neu gyfyngol ac wedi galluogi pobl i gael mwy o reolaeth dros eu bywyd bob dydd. Mae nifer o unigolion bellach yn datblygu sgiliau newydd, yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ac yn magu hyder wrth reoli tasgau bob dydd.

Mae effaith y dull hwn wedi bod yn gadarnhaol ac yn fesuradwy. Mae cefnogaeth bellach yn fwy ystyrlon ac yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, yn hytrach na dilyn trefn gwasanaeth. Trwy barhau i ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd, darparwyr a gweithwyr proffesiynol, ynghyd â'n data adolygu, rydym

wedi gweld tystiolaeth glir o lai o ddibyniaeth ar gymorth y telir amdano, lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn dangos gwell canlyniadau i unigolion gan hefyd sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Yn dra phwysig, cyfrannodd y gwaith hwn at arbedion effeithlonrwydd i'r awdurdod lleol, gan helpu i sicrhau bod cefnogaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy heb effeithio ar ansawdd na chanlyniadau.

Mae ein cryfderau yn ein hymrwymiad i annog annibyniaeth, ein defnydd cyson o'r model cynnydd, ac ein dull cydweithredol gyda darparwyr. Drwy weithredu'r polisi Cymryd Risgiau Cadarnhaol, rydym yn sicrhau dull cyffredin a rhagweithiol i gefnogi cynnydd. Mae hyn wedi ein helpu ni i gynnal cefnogaeth sy'n hyblyg ac yn ymatebol wrth i bobl symud ymlaen.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i gryfhau sut rydym yn mesur canlyniadau, gan gofnodi gwelliannau i les, hyder ac ansawdd bywyd yn ogystal â gostyngiadau i oriau cefnogi. Bydd parhau i ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd a darparwyr yn parhau i fod yn ganolog i bennu a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cynnydd.

Mae'r gwaith hwn yn greiddiol i'n hymrwymiad i helpu pobl sydd ag anabledd dysgu i fyw bywydau annibynnol yn llawn boddhad, gyda'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

Gwella gwasanaethau iechyd meddwl

Ers mis Ebrill 2025, mae Gweithwyr Cymdeithasol Iechyd Meddwl Sir y Fflint wedi symud o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i weithio o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol ochr yn ochr â'r Tîm Lles ac Adfer a Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl. Mae'r newid hwn wedi cryfhau'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i unigolion ac wedi gwella morâl, ymarfer diogel a chyfraddau chadw staff. Hefyd, mae wedi creu mwy o gyfleoedd i weithwyr cymdeithasol weithio mewn ffordd ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau.

Mae ansawdd ac effaith y gwaith yn dod yn fwyfwy eglur. Mae unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gweld canlyniadau cadarnhaol, ac mae dim rhestrau aros yn adlewyrchu effeithlonrwydd y strwythur newydd a gallu'r tîm i ymateb i angen heb oedi. Daw tystiolaeth o'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud drwy adborth gan unigolion, ynghyd â data perfformiad.

Gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae canllawiau gweithredu a Memorandwm o Ddealltwriaeth wedi'u sefydlu i allu gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, ac mae gwaith sylweddol wedi'i gwblhau ynghlwm â chyfrifoldebau Adran 117, a'r rhan fwyaf o adolygiadau bellach yn gyfredol. Mae'r datblygiadau hyn wedi cryfhau sylfeini'r gwasanaeth ac wedi creu fframwaith ymarfer mwy cydlynol ac atebol.

Mae'r tîm yn parhau i adeiladu ar ei gryfderau, gan gynnal perthynas waith agos gyda chydweithwyr ym maes iechyd a sicrhau llinellau cyfathrebu clir. Er bod cynnydd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol, mae ymrwymiad ar y cyd i barhau i wella, mireinio ymarfer, a chryfhau cydweithio er mwyn i unigolion barhau i gael y gefnogaeth orau bosib'.

Cefnogi pobl hŷn yn y gymuned

Mae Sir y Fflint yn parhau i ddatblygu cyfleoedd dydd ystyrlon i bobl hŷn drwy gryfhau cefnogaeth gymunedol a hybu annibyniaeth. Drwy fodel ein Gwasanaeth Lles, mae unigolion yn cael eu hannog a'u cefnogi i fanteisio ar weithgareddau sydd eisoes ar gael yn eu cymunedau lleol, sy'n eu helpu i gadw cysylltiad â phobl mewn ffyrdd sy'n bwysig iddyn nhw. Ynghyd â hyn, mae mentrau Heneiddio'n Dda a Deall Dementia'n chwarae rhan bwysig i feithrin capasiti cymunedol, gan sicrhau bod gweithgareddau lleol yn gynhwysol, croesawgar, a chefnogol i bawb. Mae ein hymagwedd at waith cymdeithasol yn seiliedig ar gryfderau'n ategu hyn trwy helpu pobl i feddwl sut all ymgysylltu â'r gymuned wella eu lles, gan hefyd gynnig mynediad at gefnogaeth ddydd fwy arbenigol lle bo angen. Gyda'i gilydd, mae'r ymdriniaethau hyn yn creu rhwydwaith toreithiog o gyfleoedd sy'n hybu annibyniaeth, cyswllt, ac ymdeimlad o berthyn i bobl hŷn ar hyd a lled Sir y Fflint.

Llys Gwenffrwd: Symud Ymlaen

Mae cynlluniau bellach yn cael eu datblygu i siapio dyfodol hirdymor Llys Gwenffrwd, cartref gofal preswyl mewnol Sir y Fflint yn Nhreffynnon. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn y camau cynllunio cynnar, gydag ystod o opsiynau datblygu'n cael eu hystyried i sicrhau bod y cartref yn parhau i ddiwallu anghenion pobl hŷn yn y blynyddoedd i ddod. Wrth ffurfio'r cynlluniau hyn, y ffocws o hyd yw cryfhau gofal preswyl mewnol a dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi preswylwyr heddiw ac yn y dyfodol.

Diogelu Oedolion

Mae'r Uned Ddiogelu'n hanfodol i warchod oedolion a allai fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, ac yn sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni â gofal a chywirdeb. Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud ymholiadau perthnasol a phennu'r camau nesaf o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad diogelu oedolyn. Yn Sir y Fflint, mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei ysgwyddo gan ein Tîm Diogelu Oedolion, sy'n arwain ar yr holl ymholiadau am ddiogelu oedolion. Gan gydweithio â phartneriaid, mae'r tîm yn asesu risg, yn cydlynu ymyraethau amserol, ac yn cynnal y safonau ymarfer uchaf i gefnogi pobl i fyw'n ddiogel gydag urddas. Mae'r enghreifftiau isod yn amlygu'r gwahaniaeth cadarnhaol mae'r tîm yn ei wneud yn ymarferol.

Atgyfeiriad A

Derbyniwyd atgyfeiriad ynghylch pryderon am dechneg symud a chodi a ddefnyddiwyd gydag oedolyn diamddiffyn ac roedd rhai cwestiynau ynghylch p'un a oedd argymhellion proffesiynol yn cael eu dilyn. Drwy drafodaethau adeiladol â'r therapydd galwedigaethol a chynrychiolydd yr unigolyn, sefydlwyd nad oedd unrhyw ymarfer anniogel wedi digwydd. Amlygodd yr ymholiad ymarfer cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: ystyriwyd dewis yr unigolyn ac amgylchedd y cartref yn llawn, ac ystyriwyd cydbwysio hawl a risg yn yr ymchwiliad. Sicrhodd y broses ddiogelu fod llais yr unigolyn yn parhau i fod yn ganolog, a pharhawyd i ddarparu cefnogaeth ddiogel iddynt i fodloni eu dymuniadau.

Atgyfeiriad B

Gwnaethpwyd atgyfeiriad ar ôl i oedolyn diamddiffyn gael eu derbyn i'r ysbyty ac ar ôl mynegi pryderon am y gofal yr oedd oedolyn diamddiffyn wedi'i dderbyn yn eu cartref gofal. Roedd y broses ddiogelu'n hyrwyddo deialog agored rhwng y cartref gofal, teulu'r unigolyn a gweithwyr proffesiynol. Ymgysylltodd y darparwr yn rhagweithiol, gan ymateb i bob pryder a godwyd a chymryd camau i leihau risg. Er bod y teulu wedi dewis lleoliad amgen yn y pen draw, rhoddwyd sicrwydd iddynt bod yr unigolyn yn ddiogel yn y cyfamser. Mae'r achos hwn yn dangos gwaith partneriaeth cadarnhaol yn ogystal ag ymateb llwyddiannus i bryderon.



Atgyfeiriad C

Cafwyd atgyfeiriad diogelu ar ôl i ddarparwr gofal newydd gael problemau ynghlwm â'r gweithlu, a arweiniodd at fethu ymweliadau ag unigolyn diamddiffyn. Yn dilyn camau brys gan y tîm diogelu, sicrhawyd bod yr unigolyn yn derbyn cefnogaeth yn y cyfamser, gan leihau'r risg yn sylweddol. Drwy weithio ar y cyd â gwasanaethau lleol, sicrhawyd parhad o ran gofal, ac o ganlyniad i barodrwydd y darparwr i gydnabod terfynau eu capasiti, llwyddwyd i ddysgu gwersi a rhoi newidiadau ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r achos hwn yn brawf o reoli risg yn gyflym, cydweithrediad cryf rhwng asiantaethau, a diogelu'r unigolyn a'r gymuned ehangach yn effeithiol.

Blaenoriaethau 2026/27

- Sefydlu fframweithiau ymarfer cryf i weithio gyda phlant a theuluoedd.
- Gwellu sut rydym ni'n adnabod ac yn ymateb i esgeulustod, gan ddefnyddio adnoddau dibynadwy.
- Gweithredu ar wersi o adolygiadau diogelu.
- Byddwn yn adolygu ac yn cryfhau cysondeb ein prosesau diogelu, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli pryderon am bobl sydd mewn swyddi cyfrifol.
- Gwellu sut rydym ni'n deall ac yn ymateb i anghenion a phrofiadau gofalmwyr.
- Adolygu a gwellu cefnogaeth i bobl niwroamrywiol.
- Ehangu ein model cynnydd i gefnogi annibyniaeth a chanlyniadau cadarnhaol.



Arolygiadau ac adolygiadau

Cartrefi preswyl plant

O fis Mehefin i fis Medi 2025, cynhaliodd AGC arolygiad o'r pedwar cartref preswyl plant sydd gan Sir y Fflint.

Roedd canfyddiadau arolygiadau AGC yn dangos darpariaeth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn a oedd o safon uchel gyson. Cafodd dau gartref, y Dderwen a Tŷ Nyth, sgôr "Rhagorol" ym mhob un o'r pedair thema arolygu, a chafodd Tŷ Clyd a Tŷ Seren sgôr "Rhagorol" mewn tair o'r pedair thema a "Da" ar gyfer Amgylchedd.

Ar y cyfan, mae cartrefi preswyl Sir y Fflint yn darparu gofal ystyriol o drawma sydd o ansawdd uchel ac maent wedi'u cydnabod gan AGC am ddarparu gofal a chymorth rhagorol yn gyson ar draws pob gwasanaeth, a phrawf o hynny drwy ymarfer sy'n canolbwyntio'n helaeth ar y plentyn, gweithwyr hyderus sydd wedi'u hyfforddi'n dda, a chanlyniadau mesuradwy i blant a phobl ifanc mewn gofal.

Mae'r pedwar cartref ar y cyd yn arwydd o wasanaeth preswyl sy'n perfformio'n dda, gydag:

- Ymarfer therapiwtig cryf sy'n ystyriol o drawma
- Arferion diogelu rhagorol
- Cartrefi o ansawdd sy'n meithrin plant a phobl ifanc
- Timau medrus, myfyriol
- Trefniadau llywodraethu cadarn
- Canlyniadau cadarnhaol cyson i blant
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth gref

Ni wnaeth AGC nodi unrhyw gamau blaenoriaeth na meysydd i'w gwella yn unrhyw un o'n cartrefi.

Gan y gallai adroddiadau arolygiadau ar gyfer y math hwn o wasanaeth gynnwys gwybodaeth sensitif, nid yw'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae modd gwneud cais ffurfiol i AGC am gopi o'r adroddiad.

Tŷ Seren

Trosolwg:

Mae Tŷ Seren yn gartref plant sy'n gallu darparu gofal meithringar sy'n ystyriol o drawma i hyd at 2 o blant a phobl ifanc rhwng 8 a 18 oed. Mae'r cartref wedi cael sgôr 'Rhagorol' ar gyfer Lles, Gofal a Chefnogaeth, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a 'Da' ar gyfer Amgylchedd.

Prif gryfderau:

- Gofal sy'n ystyriol o drawma a gofal therapiwtig effeithiol iawn, yn defnyddio PACE (Chwarëusrwydd, Derbyn, Chwilfrydedd, Empathi) a Seicotherapi Datblygiadol Deuol (DDP).
- Mae plant yn gwneud cynnydd da ar reolaeth emosiynol, annibyniaeth, perthnasoedd, ac addysg.
- Prosesau diogelu cadarn a phrosesau cwyno clir.
- Gweithwyr medrus sydd wedi'u cefnogi'n dda, a goruchwyliaeth gref gan arweinwyr.

Amgylchedd:

- Llety cartrefol, diogel, ac mewn cyflwr da gyda mannau wedi'u personoli ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cydymffurfiaeth gref ag iechyd a diogelwch, gyda phrosesau cynnal a chadw a rheoli risg ymatebol.

Llywodraethu:

- Mae goruchwyliaeth strwythuredig, prosesau sicrhau ansawdd, ac ymarfer myfyriol wedi'u sefydlu'n dda yno.

Tŷ Clyd

Trosolwg:

Mae Tŷ Clyd yn gartref i un plentyn neu berson ifanc sy'n cynnig gofal dwys wedi'i deilwra. Mae'r cartref wedi cael sgôr 'Rhagorol' ar gyfer Lles, Gofal a Chefnogaeth, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a 'Da' ar gyfer Amgylchedd.

Prif gryfderau:

- Ymarfer ystyriol o drawma cryf sy'n hyrwyddo gwytnwch emosiynol a meithrin perthnasoedd.
- Cynnydd rhagorol wedi'i nodi mewn addysg, annibyniaeth, integreiddio cymdeithasol a lles emosiynol.
- Lleisiau plant yn cael eu blaenoriaethu'n gyson trwy nifer o ddulliau cyfranogi.
- Cynnig Rhagweithiol Cymru i'w weld yn amlwg.

Amgylchedd:

- Amgylchedd cartrefol, diogel gyda mannau mae modd eu haddasu.
- Gwiriadau iechyd a diogelwch yn rhan o'r drefn arferol; addasiadau arbenigol yn cael eu hystyried lle bo angen.

Llywodraethu:

- Goruchwyliaeth, hyfforddiant, cyfarfodydd tîm a throsolwg uwch yn digwydd yn rheolaidd.
- Prosesau monitro, archwilio ac ymgysylltu cadarn.

Tŷ Nyth

Trosolwg:

Mae Tŷ Nyth yn gartref Model Triniaeth Integredig sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Therapi Amlsystemig – Trawsnewid Integredig i Deuluoedd (MST-FIT) yn rhan o ymyrraeth ddwys dau-gam sy'n canolbwyntio ar ailuno plant a phobl ifanc, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Wrecsam a BIPBC. Mae'r cartref wedi ennill sgôr 'Rhagorol' ym mhob thema arolygu.

Prif gryfderau:

- Ffocws cryf ar ddychwelyd plant at eu teulu neu i ofal perthnasau, a thimau'n cefnogi pontio trwy gael plant, pobl ifanc a'u hoedolion neu ofalwyr i gymryd rhan mewn sesiynau sgiliau Therapi Ymddygiad Dialectegol (DBT) i hyrwyddo gwytnwch emosiynol a chynnal perthnasoedd iach.
- Modelau therapiwtig wedi'u sefydlu, yn cynnwys y Model Triniaeth Integredig a dulliau sy'n seiliedig ar DBT.
- Gwaith cynllunio wedi'i bersonoli'n helaeth, a phlant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu hadolygiadau, eu trefn ddyddiol a phenderfyniadau yn eu cylch.
- Ymarfer diogelu rhagorol, yn cynnwys ymatebion cadarn i risgiau ar goll o-ofal.

Amgylchedd:

- Cartref â digon o le, sydd mewn cyflwr da, gydag ardaloedd diogel tu allan.
- Amgylchedd yn cefnogi lles, datblygiad, a thwf emosiynol.

Llywodraethu:

- Arweinyddiaeth fyfyrion, uchelgeisiol gyda fframweithiau llywodraethu cryf.
- Prosesau cynhwysfawr ar gyfer hyfforddiant a datblygiad y gweithlu.

Y Dderwen

Trosolwg:

Mae'r Dderwen yn gartref sy'n gallu cefnogi hyd at 4 o blant a phobl ifanc. Mae'r cartref wedi ennill sgôr 'Rhagorol' ym mhob thema arolygu.

Prif gryfderau:

- Canlyniadau eithriadol o gadarnhaol ar draws lles emosiynol, addysg, perthnasoedd, ac ymddygiad.
- Mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, gyda chyfleoedd helaeth i ddylanwadu ar eu gofal ac amgylchedd eu cartref.
- Ethos therapiwtig cryf gydag ymarfer diogelu cyson.
- Gweithio allweddol effeithiol iawn, sy'n cyfrannu at ganlyniadau lles mesuradwy.

Amgylchedd:

- Amgylchedd cartref therapiwtig o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Mesurau diogelwch cadarn, yn cynnwys mannau storio diogel, trefniadau rheoli ymwelwyr, a gwiriadau cyson.

Llywodraethu:

- Arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol gyda throsolwg cynhwysfawr.

Ymweliad gwiriad gwella â Gwasanaethau Plant Sir y Fflint

Ar ôl Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Tachwedd 2023, cafodd Gwasanaethau Plant Sir y Fflint Wiriad Gwella gan AGC rhwng 14 ac 16 Gorffennaf 2025.

Canfu'r gwiriad, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd a nodwyd yn ystod yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad, gynnydd cadarn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i deuluoedd a phlant.

Nododd arolygwyr AGC welliant parhaus o safbwynt arweinyddiaeth, arferion diogelu, sefydlogrwydd y gweithlu ac ansawdd y gofal a chefnogaeth a roddir i blant a theuluoedd. Wrth adeiladu ar arolwg cadarnhaol yn 2023, bu AGC yn monitro cynnydd ar feysydd penodol a nodwyd i'w datblygu, gan ganfod tystiolaeth o gynnydd i ymgorffori arferion i sicrhau gwelliant parhaus.

Dyma brif bwyntiau adroddiad AGC:

- Arweinyddiaeth a llywodraethu cryfach, yn meithrin diwylliant o welliant parhaus.
- Gwella sefydlogrwydd y gweithlu, gyda chynnydd o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol medrus a llai o ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth.
- Gwelliant o ran cymorth llety, sy'n cyfrannu at ostyngiad mewn digartrefedd ymysg pobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Gwasanaethau cymorth cynnar ac atal, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer plant niwroamrywiol.

Canmolodd AGC yr ymagwedd gydweithredol gadarnhaol, gan nodi bod partneriaethau amlasiantaeth cryf wedi cyfrannu at gefnogaeth sy'n fwy cyfannol ac effeithiol ar gyfer plant.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r adroddiad yn nodi bod angen manteisio ar fomentwm i ddatblygu ac ymgorffori gwelliant parhaus ymhellach, gan fynd i'r afael â meysydd penodol i wella ac atgyfnerthu ymarfer a darpariaeth gwasanaeth. Mae Gwasanaethau Plant Sir y Fflint yn gwneud cyfres o welliannau i gryfhau sut mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cefnogi ac mae mwy o fanylder am y camau gweithredu wedi'i ddarparu yn adran Atal yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Cartref Preswyl Llys Gwenffrwd

Cartref gofal preswyl sy'n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol yn Nhreffynnon yw Llys Gwenffrwd. Cafodd y cartref arolygiad ar 8 Ebrill 2025. Rhoddwyd y sgoriau canlynol i Llys Gwenffrwd:

Lles	Da
Gofal a Chymorth	Da
Amgylchedd	Da
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Da

Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

“Mae Llys Gwenffrwd wedi'i leoli yn nhref farchnad Treffynnon. Gellir cerdded i ganol y dref yn hwylus, lle ceir amrywiaeth o siopau, caffis, banciau ac amwynderau lleol eraill. Mae'n wasanaeth cartrefol â digon o le, ac mae digon o ardaloedd cymunedol cyfforddus a gardd ddiogel ar gael.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros benderfyniadau o ddydd i ddydd ac ymgynghorir â nhw er mwyn cael gwybod eu barn a'i hystyried. Caiff amrywiaeth eang o weithgareddau eu cynnig sy'n addas ar gyfer chwaethau unigol. Caiff cydberthnasau â ffrindiau a theulu eu cefnogi a chaiff ymwelwyr eu croesawu. Mae'r staff gofal yn cynnig gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion y bobl ac yn cefnogi eu hannibyniaeth. Maent yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r cartref yn ddiogel ac mae cymhorthion arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl a'r staff yn dda ac mae ar gael ac yn hawdd mynd ato os bydd ganddynt unrhyw ofidion neu bryderon. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn goruchwyllo'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth da, â rhai meysydd amlwg o ymarfer cadarnhaol, yn enwedig o ran y ffordd y mae'n diwallu anghenion llesiant y bobl.”

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Gwasanaeth Gofal Cartref – Sir y Fflint

Mae gwasanaeth gofal cartref Sir y Fflint yn rhoi cefnogaeth i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gofal cartref yn y gymuned ar draws y sir, tai cymorth ychwanegol ar draws pedwar cynllun, ac i bobl sydd ag anableddau dysgu yn y deunaw o dai byw â chymorth sydd gan Sir y Fflint.

Cafodd y gwasanaeth arolygiad rhwng 11 Mehefin ac 19 Mehefin 2025. Rhoddwyd y sgoriau canlynol i'r gwasanaeth:

Lles	Da
Gofal a Chymorth	Da
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Da

Ni wnaeth AGC nodi unrhyw gamau blaenoriaeth na meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

“Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod llesiant y bobl yn dda gan fod eu canlyniadau gofal yn cael eu diwallu. Mae cymorth a gofal y bobl hefyd yn dda am fod gan y bobl rheolaeth dros eu bywydau pob dydd. Caiff y bobl gymorth hyblyg, lle y bo'n bosibl, gan dîm bach o staff cymorth y maent yn eu hadnabod. Mae'r bobl yn cymryd rhan wrth ddatblygu eu cynlluniau personol sy'n fanwl ac yn gyfredol, a chaiff eu canlyniadau eu diwallu. Mae'r staff cymorth yn deall anghenion a dewisiadau'r bobl.

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth hefyd yn dda, ac mae trefniadau goruchwyllo effeithiol ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr. Mae systemau sicrhau ansawdd, monitro ac archwilio ar waith er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr cymorth sydd wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n gadarn i ddiwallu eu hanghenion. Mae prosesau cynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelu unigolion a rhoi meddyginiaeth i'r bobl.”

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Woodlee

Mae Woodlee yn gartref gofal seibiant tymor byr i oedolion ag anableddau dysgu ym Mwcle. Cafodd Woodlee arolygiad ar 9 Chwefror 2026.

Rhoddwyd y sgoriau canlynol i Woodlee:

Lles	Da
Gofal a Chymorth	Da
Amgylchedd	Da
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Da

Ni wnaeth AGC nodi unrhyw gamau blaenoriaeth na meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

“Gwasanaeth seibiant byrdymor ym Mwcle ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yw Woodlee. Mae'n fyngalo mewn ardal breswyl dawel sydd wedi'i addasu ar gyfer anghenion pobl ag anawsterau symudedd. Mae'r gwasanaeth o fewn pellter cerdded i ganol y dref, lle ceir siopau, caffis a thafarndai. Mae'r gwasanaeth yn gartrefol ac yn gyfforddus drwyddo draw, gan gynnig ymdeimlad 'cartref oddi cartref' i'r bobl yn ystod eu harosiadau.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan staff cymorth sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn gwybod am arferion a dewisiadau'r bobl a gall y bobl fwynhau canlyniadau llesiant da yn ystod eu harhosiad. Darperir lefel dda o ofal a chymorth gan staff cymorth medrus a chymwysedig. Caiff y tîm ei gefnogi gan reolwr a dirprwy reolwr, sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ei oruchwyllo'n dda.”

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](#).

Ymweliad gwiriad gwella â Gwasanaethau Oedolion Sir y Fflint

Ar ôl Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Tachwedd 2023, cafodd Gwasanaethau Oedolion Sir y Fflint Wiriad Gwella gan AGC rhwng 9 ac 13 Mawrth 2026.

Roedd y gwiriad yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a gododd o'r Arolygiad Gwerthuso Perfformiad.

Gan fod adroddiad AGC i gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2026, fe fyddwn yn cynnwys y manylion yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 2026/27.

Cwynion a sylwadau

Cwynion a sylwadau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, weithdrefn gwynion gadarn ar waith. Rydym yn croesawu cwynion ac eisiau sicrhau ein bod yn gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd, yn gweithredu ar eu barn, a'u bod yn cael ymateb amserol ac agored. Rydym yn gweithio'n galed i ddatrys problemau cyn gynted ag y byddant yn codi, ac rydym bob amser yn annog eiriolaeth. Mae unigolion yn cael eu cefnogi i wneud cwynion drwy:

- Llais, Corff Llais y Dinesydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
- Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, sy'n cefnogi oedolion, pobl hŷn, pobl iau sydd â dementia a gofalwyr.
- Tros Gynnal Plant/TGP Cymru, sy'n cefnogi plant a phobl ifanc a allai fod yn mynd trwy gyfnod heriol yn eu bywydau.

Mae cwynion ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn gymharol gyson o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae mwy o amrywiaeth yn niferoedd y cwynion a gafwyd ar draws y meysydd gwasanaeth eleni: gostyngiad yn y Gwasanaethau Oedolion, cynnydd yn y Gwasanaethau Plant, a chynnydd ar y cyfan mewn ymchwiliadau annibynnol i gwynion ar draws y ddau faes gwasanaeth. O ystyried ystod a mathau'r gwasanaethau mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol

yn eu darparu, mae themâu'r cwynion yn eang ond mae modd eu categorio fel a ganlyn:

- **Urddas** - Lle mae pryderon am ofal personol a gwedd unigolyn, a'r effeithiau posib' y gall unrhyw ddiffygion eu cael ar yr unigolyn hwnnw.
- **Cyfathrebu** - Y ffordd rydym yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd a'r ffordd maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.
- **Ansawdd gofal** - Problemau yn ymwneud â gofal unigolyn, boed yn ofal preswyl, gofal cartref, gofal seibiant neu ofal maeth.
- **Amseroldeb** - Ein prosesau i wneud penderfyniadau o ran cynnig a darparu gofal a chymorth, a'r amser i ddod o hyd i becynnau gofal.
- **Anghytundeb** - Pan fydd unigolion a theuluoedd yn herio neu'n apelio yn erbyn ein penderfyniadau neu ein gwaith, neu'n credu bod diffyg gweithredu ynghylch materion y maent yn eu codi.
- **Costau ariannol** - Anghydfodau sy'n ymwneud â sut rydym wedi gwneud penderfyniadau i godi tâl am ofal a chymorth, a'r symiau a godwn.
- **Proses** - Lle nad ydym wedi cadw at brosesau, neu fod gwybodaeth bwysig efallai ar goll yn ein gwaith papur.
- **Staff** - Lle mae ein cyfranogiad neu'n achosion o ryngweithio wedi cael eu camddeall, neu lle codwyd cwestiynau am ein hymddygiad proffesiynol gyda phobl.

- **Cyswllt** - Materion yn ymwneud â threfniadau cyswllt plant a theuluoedd fel y gorchmynnir gan y Llys.

Mae cwynion am y Gwasanaethau Oedolion yn cael eu gwneud yn bennaf gan frodyr a chwiorydd unigolion sy'n cael gofal a chymorth, a chwynion am Wasanaethau Plant yn cael eu gwneud gan amlaf gan rieni y mae'r awdurdod yn gofalu am eu plant neu rieni i blant sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth. Daw'r rhan fwyaf o gwynion i law dros e-bost. Ni wneir cysylltiad rhwng cwynion sy'n cael eu cofnodi a nodwedd warchodedig, gan fod gwybodaeth am yr achwynydd yn gyfyngedig. Mae'r pwyslais o'n rhan ni ar wrando ar eu profiadau a'r hyn a allai fod yn mynd o'i le ac unioni'r sefyllfa, lle bo hynny'n briodol, heb oedi.

Caiff yr holl gwynion eu harchwilio a'u defnyddio i wella'r gwasanaethau yn rhan o broses 'dysgu gwersi'. O ran dysgu, rydym wedi:

- Adolygu ein proses taliadau uniongyrchol i sicrhau bod debydau/credydau uniongyrchol yn dod i ben ar unwaith os yw taliadau uniongyrchol yn cael eu hatal. Cyfeirir at hyn mewn sesiynau hyfforddiant ar daliadau uniongyrchol i ymarferwyr hefyd.

Rydym wrthi'n:

- Adolygu ein pecyn o adnoddau seibiant i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf.
- Datblygu protocol cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Adnoddau Cymunedol.
- Adolygu ein hymarfer ar alluedd meddyliol a chofnodi lle nad yw Asesiad Galluedd Meddyliol yn cael ei gynnal, gan sicrhau bod tystiolaeth amlwg am sail y penderfyniad o fewn cofnodion achos ac ein bod yn rhoi eglurhad clir a sensitif yn ei bryd i deuluoedd.

O ran y weithdrefn gwyno statudol a'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Comisiwn Hawliau Dynol, 'Herio penderfyniadau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr':

- Mae gwybodaeth am wneud cwynion ar gael yn ddwyieithog, yn cynnwys ar-lein ac ar ffurf copi caled, a gellir gwneud addasiadau mewn fformatau eraill.
- Mae gwybodaeth am wneud cwynion yn cyfeirio at sefydliadau cenedlaethol a lleol y gellir cysylltu â nhw am gyngor a chymorth pellach.

Mae adroddiadau blynyddol cwynion a chanmoliaeth y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Medi ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd. Mae adroddiadau a chofnodion ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar [wefan Sir y Fflint](#).

Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth

Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau pwysig

Dolenni i ddeddfwriaeth a gwybodaeth am ofal cymdeithasol:

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

[Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)

[Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae](#)

[Deddf Gofal Plant](#)

Strategaethau allweddol Cyngor Sir y Fflint

[Cyngor Sir y Fflint - Cynllun y Cyngor](#)

[Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint - Cynllun Llesiant](#)

[Strategaeth Ddigidol](#)

[Strategaeth Newid Hinsawdd](#)



Cynllunio at y dyfodol a chynaliadwyedd

Yn ychwanegol at yr holl waith mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio ato, rydym yn parhau i edrych ymlaen at y 5 i 10 mlynedd nesaf i sicrhau bod ein gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn wydn a chynaliadwy gan allu bodloni galw'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddarnau allweddol o waith i ddeall anghenion sy'n newid yn well a chynllunio ar eu cyfer, fel Adolygiad Gofal Preswyl sydd wedi ystyried galw yn y dyfodol am wasanaethau preswyl hyd at 2034, ac mae adolygiad tebyg yn cael ei gynnal ar gyfer gofal cartref. Ynghyd â hyn, rydym ni'n datblygu modelau darogan galw ar sail tueddiadau demograffig ac angen sy'n dod i'r amlwg, i gryfhau ein gallu i flaengynllunio ac ymateb yn rhagweithiol i bwysau yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn datblygu strategaeth 5 i 10 mlynedd ar gyfer ein Gwasanaethau Darparwr mewnol i foderneiddio darpariaeth a'i pharatoi at y dyfodol, i sicrhau ei bod yn ymateb i alw cynyddol sy'n newid. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd mesuradwy i unigolion, gan leihau'r angen am gefnogaeth hirdymor a'r costau cysylltiedig. Rydym hefyd am geisio cryfhau gallu a hyblygrwydd y gweithlu, datblygu llwybrau gyrfa clir, a sicrhau ein bod yn cadw at bolisiau cenedlaethol. Yn ganolog i'n dull fydd gallu dangos canlyniadau mesuradwy sy'n

cefnogi mwy o annibyniaeth a llai o alw hirdymor, gan sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Rydym yn defnyddio tystiolaeth ac adnoddau cynllunio allweddol, gan gynnwys Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, i lywio penderfyniadau a phennu ein blaenoriaethau hirdymor. Mae'r rhain, ynghyd â'r gwaith gwella sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn, yn rhoi cyfeiriad clir i wasanaethau sy'n gynaliadwy, yn ymatebol ac yn cyd-fynd ag angen lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Rydym hefyd yn buddsoddi yn y sylfeini a fydd yn cefnogi darpariaeth y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn haws cael gwybodaeth a chynghor drwy ailddylunio'r wefan, defnyddio mwy ar adnoddau digidol, a datblygu ein gweithlu trwy fentrau fel Rhaglen Meithrin ein Gweithwyr ein Hunain a datblygu Academi Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn cefnogi ein blaenoriaethau gwella ac yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon i'n preswylwyr heddiw ac yn y dyfodol.

Crynodeb o Flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2026/27

Pobl: rhoi pobl yn gyntaf

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwn yn:

- Gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a dangos sut mae eu 'llais' nhw'n cyfrannu at eu cynllun asesu, gofal a chymorth a datblygu canlyniadau personol.
- Dangos cynnig rhagweithiol o eiriolaeth annibynnol i bobl sydd angen y cymorth hwnnw.
- Sefydlu model ymarfer 'cyfathrebu cydweithredol'.
- Datblygu Polisi Dewisiadau fel bod pobl yn deall yr opsiynau a'r hyn y gallwn ni ei gynnig i ddarparu ar gyfer eu hanghenion cymwys sydd wedi'u hasesu.
- Meithrin capasiti a ffocws ar gyfer adolygiadau amserol o ansawdd, yn cynnwys taliadau uniongyrchol.
- Buddsoddi yn ein gweithlu trwy recriwtio a datblygu gyda'r bwriad o feithrin ein gweithwyr ein hunain.
- Adolygu ein strwythur i wella gwytnwch a lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth.
- Cwblhau hunanasesiad gwrth-hiliaeth, a chynllun gweithredu clir gydag o.
- Paratoi a dechrau cyflwyno'r system TG newydd (Mosaic), gyda digon o hyfforddiant i staff.
- Treialu a defnyddio offerynnau deallusrwydd artiffisial yn ddiogel i roi mwy o amser i staff ganolbwyntio ar weithio gyda phobl.

Atal a chymorth cynnar

Byddwn yn gweithredu'n gynnar i atal problemau rhag dwysáu. Byddwn yn:

- Cefnogi perthnasoedd cryf rhwng rhieni a babanod a gwella dealltwriaeth o ddatblygiad ac iechyd meddwl cynnar plant.
- Creu dull cyson i leihau a rheoli rhestrau aros.
- Adolygu a gwella sut mae pobl yn symud yn ddiogel ac yn gyflym o'r ysbyty i gael y gefnogaeth gywir.
- Buddsoddi yn ein harbenigedd mewnol i gefnogi ailalluogi a gwella gartref.
- Cefnogi pobl ifanc i symud o ofal preswyl drud i ofal gyda theulu, gan gynnwys ehangu maethu.
- Byddwn yn edrych ar greu Canolbwynt Teuluoedd i ddod â chefnogaeth ynghyd mewn cymunedau.

Crynodeb o Flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2026/27

Partneriaeth ac integreiddio: gweithio gyda'n gilydd

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gael gwell canlyniadau. Byddwn yn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Fframwaith Cymorth clir, gan sicrhau cyd-ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer gwasanaethau.
- Cytuno ar gynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau mewnol, wedi'i ategu gan fodel sydd â'i gostau wedi'u cyfrifo.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr gofal plant i'w cefnogi i symud at fodolau nid-er-elw mewn gofal preswyl a maeth.
- Byddwn yn cryfhau sut rydym yn casglu ac yn gweithredu ar adborth gan bobl a chymunedau.

Lles: cefnogi lles a diogelwch

Byddwn yn gweithio i wneud pobl yn ddiogel, eu cefnogi a'u galluogi i ffynnu. Byddwn yn:

- Sefydlu fframweithiau ymarfer cryf i weithio gyda phlant a theuluoedd.
- Gwellu sut rydym ni'n adnabod ac yn ymateb i esgeulustod, gan ddefnyddio adnoddau dibynadwy.
- Gweithredu ar wersi o adolygiadau diogelu.
- Byddwn yn adolygu ac yn cryfhau cysondeb ein prosesau diogelu, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli pryderon am bobl sydd mewn swyddi cyfrifol.
- Gwellu sut rydym ni'n deall ac yn ymateb i anghenion a phrofiadau gofawyr.
- Adolygu a gwella cefnogaeth i bobl niwroamrywiol.
- Ehangu ein model cynnydd i gefnogi annibyniaeth a chanlyniadau cadarnhaol.

Rhestr termau

Ailalluogi

Math o ofal sy'n helpu pobl i aildysgu sut i wneud gweithgareddau bob dydd, fel coginio prydau bwyd ac ymolchi. Caiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth hirdymor.

Anhwyllder ar y Sbectrwm Awtistig (ASA)

Dyma'r enw meddygol am awtistiaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Y rheoleidiwr gofal cymdeithasol a gofal plant annibynnol yng Nghymru. Mae AGC yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

Atal ac ymyrraeth gynnar

Ffuriau ar gymorth sydd â'r nod o wella canlyniadau i bobl neu atal anghenion neu risgiau rhag gwaethgu. Cyfeirir atynt weithiau fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Mae BIPBC yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)

Sefydlwyd BPRh Gogledd Cymru fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i wella lles y boblogaeth a

gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Daw'r BPRh â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlyn'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

Byw â chymorth

Math o lety neu dai sy'n darparu gofal personol, cymorth neu oruchwyliaeth i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract tŷ. Gellir rhannu'r llety neu gall fod yn llety sengl, yn dibynnu ar anghenion a dymuniadau'r preswylwyr.

Cartref gofal preswyl / cartref nyrsio

Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety yn ogystal â gofal a chymorth personol 24 awr y dydd i bobl a all ei chael yn anodd byw o ddydd i ddydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd. Y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu darparu gofal mwy dwys. Mae gan gartrefi nyrsio nyrsys cymwysedig ar y safle trwy'r amser i ddarparu gofal meddygol yn ôl yr angen, lle mae cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i wneud gweithgarwch corfforol.

Rhestr termau

Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso

Rhaglen a sefydlwyd i gefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu'n uniongyrchol, sef datblygu 50 o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chefnogi ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl.

Cronfa Tai â Gofal

Cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i ddarparu tai a llety i bobl ag anghenion gofal a chymorth.

Cwmpas

Asiantaeth ddatblygu yng Nghymru sy'n gweithio dros newid cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol. Maent yn canolbwyntio ar greu economi decach a gwyrddach, hybu cyfiawnder cymdeithasol, a hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

Y sefydliad ymbarél a chymorth ar gyfer dros 1,200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru

Y sefydliad arweinyddiaeth proffesiynol a strategol i wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ADSS Cymru'n cynrychioli barn gyffredin adrannau gwasanaethau cymdeithasol y 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru.

Diogelu

Y broses o warchod plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod drwy sicrhau eu lles a'u bod yn ddiogel, a helpu eraill i adnabod ac ymateb i arwyddion o niwed.

Eiriolaeth

Mae eiriolwyr mewn gofal cymdeithasol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (cyngor lleol) a'r GIG. Maent wedi'u hyfforddi i gynorthwyo pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau, a chynorthwyo i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Fframwaith NYTH

Adnodd cynllunio sydd wedi'i gydgyhyrchu yng Nghymru i sefydliadau ac arweinwyr strategol rannu iaith ac egwyddorion allweddol ar gyfer iechyd meddwl a lles.

Fframwaith Perfformiad a Gwella

Fframwaith wedi'i ddylunio i gefnogi awdurdodau lleol i ddangos eu cynnydd yn ôl y safonau ansawdd, ac i lywio penderfyniadau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac ar lefel sefydliadol, gorfforaethol.

Gofal cartref

Hefyd yn cael ei alw'n "ofal yn y cartref". Mae'n cyfeirio at ystod eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref unigolyn. Gall gynnwys cymorth i fyw o ddydd i ddydd a gyda rhai problemau gofal iechyd.

Rhestr termau

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

Rheoleiddiwr y gweithlu ar gyfer y sector gofal a chymorth, sy'n gyfrifol am gofrestru'r gweithlu, gosod safonau proffesiynol, a chefnogi datblygiad y gweithlu. Mae gan y corff hefyd rôl i annog gwella, gan rannu arferion da, gosod blaenoriaethau ymchwil, a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau partner.

Gofal ychwanegol

Tai wedi'u dylunio gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaeth, sy'n darparu amrywiol lefelau o gymorth sydd ar gael ar y safle ac yn hybu byw'n annibynnol.

Gofalwr di-dâl

Rhywun sy'n darparu gofal a chymorth i aelodau teulu, ffrindiau, neu gymdogion sydd wedi'u heffeithio gan anabledd, afiechyd corfforol neu salwch meddwl, neu gamddefnyddio sylweddau neu rywun sy'n fregus. Nid oes angen i'r gofalwr fod yn byw â'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.

Gofalwr ifanc

Gofalwr di-dâl hyd at 18 oed. Gallent fod yn darparu gofal a chymorth i rieni, brodyr neu chwiorydd, neu aelodau eraill o'r teulu.

Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)

Gorchymyn sy'n rhoi cyfrifoldeb pennaf dros blentyn i rywun yn hytrach na'u rhieni neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Grant Cymorth Tai

Cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i'w wario ar brosiectau

sydd wedi'u bwriadu i atal digartrefedd a helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn tai â chymorth.

Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCES)

Yn darparu cyfarpar cymunedol hanfodol i gefnogi annibyniaeth pobl ag anableddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC)

Un o'r darparwyr gwasanaethau gofal mwyaf yng Nghymru.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Gwasanaeth gan y GIG sy'n helpu plant a phobl ifanc â'u hiechyd meddwl drwy gynnig cefnogaeth asesu, a thriniaeth pan maent yn ei chael yn anodd yn emosiynol neu'n seicolegol.

Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy

Gweithiwr proffesiynol hyfforddedig sy'n cydlynu asesiadau a phenderfyniadau yn ymwneud â chadw unigolion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac ystyried safbwyntiau meddygol a chymdeithasol.

Hft

Elusen sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw gyda mwy o annibyniaeth a dewis ar draws ardal Sir y Fflint. Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu Hft i ddarparu gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn y sir.

Rhestr termau

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Sefydliad trydydd sector cymunedol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Mwy na Geiriau

Strategaeth a chynllun cyflawni i wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os bydd llys wedi rhoi Gorchymyn Gofal i roi plentyn mewn gofal, neu fod adran Gwasanaethau Plant y Cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

Plant sydd â phrofiad o ofal

Term ymbarél a all olygu plant a phobl ifanc sydd:

- Yn derbyn gofal gartref trwy Orchymyn Gofal.
 - Yn derbyn gofal oddi cartref mewn cartref preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad gofal gan berthynas ('yn derbyn gofal' neu 'ddim yn derbyn gofal').
 - Wedi bod yn derbyn gofal yn y gorffennol; pan fônt, ar ryw adeg yn eu bywydau, wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod.
- Efallai nad yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc erioed wedi derbyn gofal yn ffurfiol.

Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru (Prosiect Trawsnewid AD GC)

Mae 'Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl

ag Anableddau Dysgu' yn un o bedwar prosiect trawsnewid yng Ngogledd Cymru, sydd hefyd yn cael ei alw'n Brosiect Trawsnewid AD.

Rhaglen Llwybr Blynyddoedd Cynnar

Rhaglen sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd trwy greu llwybrau unol, di dor ar draws gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion unigryw pob plentyn.

Rhai sy'n gadael gofal

Yng Nghymru, mae rhai sy'n gadael gofal yn unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am 13 wythnos, o leiaf, ers iddynt fod yn 14 mlwydd oed ac sydd wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 16 neu wedi hynny. Bwriedir i'r gefnogaeth a ddarperir i rai sy'n gadael gofal gyfateb i'r hyn y byddai plentyn nad yw wedi derbyn gofal yn gallu ei ddisgwyl yn rhesymol gan ei rieni.

Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)

Mae D2RA yn cefnogi cleifion wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i gael cefnogaeth therapi ddwys er mwyn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosib' cyn dychwelyd adref.

System Gofal Cymunedol Integredig

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio i drawsnewid sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio ynghyd, gan ganolbwyntio'n gryf ar atal, cefnogaeth gymunedol, a chydlyniant di-dor ar draws gwasanaethau.

Rhestr termau



Taliadau uniongyrchol

Arian gan y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar gael i bobl gymwys, i'w galluogi i gael cymorth a gwneud trefniadau sy'n helpu i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol sydd wedi'u hasesu a chanlyniadau lles y cytunwyd arnynt.

Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Fframwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n dwyn polisiau a gwasanaethau ynghyd i geisio atal camdriniaeth, amddiffyn dioddefwyr, a chefnogi goroeswyr trais sy'n seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.

Therapydd Galwedigaethol

Gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi unigolion i wella eu gallu i fyw yn annibynnol trwy asesiadau, ymyraethau wedi'u teilwra, addasiadau amgylcheddol, a chydweithio â darparwyr gofal eraill.

Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU)

Sefydliad cefnogi yng Ngogledd Cymru sy'n darparu gwasanaethau cymorth, eiriolaeth a diogelwch cyfrinachol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig.

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Rhaglen 5 mlynedd o hyd gan Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027 i helpu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal.